# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 538 · **Ionawr 2023** · 50c


## Bwrlwm y Nadolig yn ein hysgolion







### Marchnad Ogwen



11

### Natur o'n Cwmpas



23

## Huw Davies yng ngharfan ymarfer Cymru dan 20

(Stori wreiddiol ar wefan Ogwen360)

Yn dilyn tymor cyntaf fel chwaraewr proffesiynol ar lyfrau clwb Siarcod Sale, mae Huw Davies o Fraichmelyn yn gwneud ei farc yn y byd rygbi.

Yn ddiweddar, fe fu'n gapten ar dîm Cymru dan 20 a fu'n chwarae gêm ymarfer gyfeillgar yn erbyn Yr Alban.

Yn ei amser ar y cae, llwyddodd Huw a'r tîm droi'r gêm o fod yn colli 5 i 17 ar yr hanner i fuddugoliaeth o 26 i 22 dros yr Albanwyr.

Mae Huw bellach wedi ei wahodd i garfan ymarfer Chwe Gwlad dan 20 Cymru. Bydd y garfan derfynol yn cael ei chyhoeddi yn dilyn gêm ymarfer ym mis Chwefror.

Rydan ni'n croesi bob dim am newyddion da bryd hynny. Tan hynny, llongyfarchiadau mawr i Huw ar ei lwyddiant hyd yma ar y cae.




**Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!**

# Llais Ogwan


## Rhif 538
Ionawr 2022



### Panel Golygyddol

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk

**Catrin Wager**
(Ffôn 07930 280075)
catrinwager@yahoo.co.uk

### Swyddogion

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


### Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Rhodri Llŷr Evans.**

Y golygyddion ym mis **Chwefror** fydd
**Walter a Menai Williams,**
14 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN.
01248 601167
E-bost: waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 28 Ionawr** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu
**Nos Iau, 16 Chwefror,**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Ionawr**

| | |
|---|---|
| £30.00 (106) | Beryl Hughes, Tregarth. |
| £20.00 (144) | Helen Williams, Braichmelyn. |
| £10.00 (103) | Gwen Ellis, Talybont. |
| £5.00 (9) | Dyfrig Jones, Ty'n y Coed, Bethesda. |

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184


Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru


post@llaisogwan.com

## Dyddiadur y Dyffryn

**Ionawr**

**20** Hystingiadau Plaid Cymru. Clwb Rygbi Bethesda am 7.00.
**26** Bwrlwm Bethlehem, Talybont. Festri am 2.00
**27** Cinio Dathlu Santes Dwynwen. Festri Capel Jerusalem am 12.00yp.

**Chwefror**

Clwb Camera Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
**06** Merched y Wawr Tregarth. Noson yng nghwmni Ann Catrin. Festri Siloh am 7.30.
**09** Y Gymdeithas. Bingo Cerddorol gydag Edwin Humphreys. Festri Jerusalem am 7.00.
**13** Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00
**13** Cymd. Hanes Dyffryn Ogwen. Cadi Iolen."Gwaith Curadurol". Festri Jerusalem am 7.00
**15** Clwb Camera Dyffryn Ogwen. Mike Martin. "Tynnu Lluniau Pobl". Cefnfaes am 7.30.
**16** Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
**22** Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid. Dafydd Fôn Williams. "Stad Coetmor – 1485-1855". Clwb Criced a Bowlio am 7.00.
**27** Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
**27** Te Bach yn festri Capel Carmel. 2.30 – 4.00.

### Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £30.00 | Er cof am Mr. a Mrs. Meirion Jones, Allt Pen y Bryn, oddi wrth Alwyn a Tudur. |
| £3.00 | Jean Bullock, 66 Ffordd Carneddi. |
| £50.00 | Myfanwy W. Harper, Tŷ Newydd, Llandygai. |
| £40.00 | Er cof annwyl am Dylan Rowlands oddi wrth dad a mam, sef Dic a Glenys Rowlands, Erw Las, a'r teulu. |
| £13.50 | Ken Jones, Edgeware, Llundain. |
| £7.00 | Mrs. Margaret Bowen Rees, Llanllechid. |
| £5.00 | Fred Buckley, Tregarth. |
| £10.00 | Doris Shaw, Arafa Don, Bethesda. |

**Diolch yn fawr**


**Gareth Williams**
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

EISTEDDFOD
Llŷn ac Eifionydd
5-12 Awst 2023

#steddfod2023
www.eisteddfod.cymru
0845 4090 900

**Pwyllgor Codi Arian Dyffryn Ogwen**

Annwyl Gyd ardalwyr Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau,

Mae pwyllgorau codi arian wedi cael eu sefydlu mewn nifer dda o ardaloedd yng Ngwynedd i gefnogi Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd y flwyddyn nesaf.

Ar gyfer Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, sef ardaloedd cynghorau cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai, gosodwyd y nod o £6,000 Rydym fel pwyllgor yn anfon at fusnesau, sefydliadau a chymdeithasau lleol gydag apêl am gyfraniadau ariannol, ond mae'r llythyr hwn yn gwahodd aelwydydd i gyfrannu, gan apelio atoch fel unigolion ac fel teuluoedd Gwyddom fod cefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yma yn ein dyffryn, a pharch tuag at y traddodiad eisteddfodol yn benodol Gwyddom hefyd ei bod hi'n argyfwng costau byw ac yn anodd iawn ar sawl teulu Fodd bynnag, gobeithio'n fawr y byddwch chi, ddarllenwyr Llais Ogwan, yn barod i gyfrannu yn ôl eich modd Bydd pob cyfraniad, bach neu fawr, yn cael ei werthfawrogi.


Rydym yn hyderus y bydd yr ymateb i'r apêl hon yn un anrhydeddus fel ein bod ni yma yn Nyffryn Ogwen yn gwneud ein rhan i sicrhau eisteddfod genedlaethol lwyddiannus yng Ngwynedd y flwyddyn nesaf.

Yn gywir,
Ieuan Wyn (Cadeirydd)
Rhodri Evans (Ysgrifennydd)

**Cyfrannu**

**Bydd eich cyfraniad yn mynd i gronfa dan ofal Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen cyn i'r cyfanswm terfynol gael ei drosglwyddo i gronfa Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Gellir cyfrannu mewn sawl ffordd:**

- **Arian parod / siec (yn daladwy i 'Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen') i Donna Watts, Swyddfa Partneriaeth Ogwen, 26 Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd LL57 3AE neu Neville Hughes, 14 Ffordd Pant, Bethesda, Gwynedd LL57 3PA.**
- **Trosglwyddiad banc i gyfrif Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen HSBC Bangor; rhif didoli: 40 09 03; rhif y cyfrif: 51306413.**




## LLYTHYR

Annwyl olygydd
Ysgrifennaf atoch o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn y gobaith y bydd y wybodaeth isod o ddiddordeb i'r darllenwyr.

Rydym eisiau lledaenu'r gair fod ysgoloriaeth gwerth hyd at £2,000 ar gael i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am fod yn diwtor Dysgu Cymraeg i oedolion neu athro / athrawes Cymraeg.

Mi fyddwn yn talu £500 yr wythnos i ymgeiswyr llwyddiannus, gan gynnig pythefnos yng Nghaerdydd yn dysgu mwy am faes Dysgu Cymraeg i oedolion a phythefnos mewn ysgol uwchradd yn arsylwi gwersi Cymraeg. Mi all ymgeiswyr llwyddiannus ddewis faint o wythnosau maen nhw'n dymuno eu gwneud.


Mae yna alw cynyddol am diwtoriaid ac athrawon Cymraeg ledled Cymru, ac rydym angen cyflenwad cyson o dalent newydd.

Mi all myfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnc wneud cais – 'dyn ni'n chwilio am bobl ifanc all ysbrydoli eraill i ddysgu a siarad Cymraeg, gyda sgiliau cadarn yn y Gymraeg eu hunain.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Ionawr, 2023 ac mae modd gwneud cais trwy wefan y Ganolfan – dysgucymraeg.cymru

Diolch ymlaen llaw a chofion gorau

**Helen Prosser**,
Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu y Ganolfan.



Stephen a Noah Jones, Bethesda, yn cefnogi ymgyrch hanesyddol Cymru yn Qatar. Chwip o faner, hogia!






**Blwyddyn Newydd Dda i chi**

# YSGOL BODFEURIG



**Cymru!**
Er gwaethaf bod Cymru wedi mynd allan yn gynnar yng nghystadleuaeth pêl-droed Cwpan y Byd, roedden nhw wedi ysbrydoli dosbarth Ogwen i ddysgu mwy am rai o'r gwledydd fu'n cymryd rhan. Cafodd pawb bleser o ddysgu am faneri y gwledydd a'r pellter o bob gwlad i Qatar. Yn dilyn y gwaith yma cafodd pawb gyfle i fod yn rhan o raglen Radio Cymru gyda Aled Hughes. Braf oedd ymuno gyda plant arall y dalgylch ar gyfer y rhaglen arbennig.

**Ymweliadau**
I roi pawb yn hwyliau'r Nadolig fe aeth pawb ar ymweliadau y mis yma. Aeth dosbarth Idwal i Pili Palas a chael cyfarfod neb llai na Siôn Corn ei hun! Cafwyd cyfle i sgwrsio gyda Siôn Corn gan rannu rhestrau Nadolig cyn addurno bisgedi, mynd i weld y trychfilod a'r anifeiliaid anwes ac yn olaf mynd i'r lle chwarae. Cafodd pawb amser arbennig yno.

Bu dosbarth Ogwen ar ymweliad gwahanol, sef i Venue Cymru i weld panto 'Beauty and the Beast'. Cafodd pawb amser gwych yno.

**Ffair Nadolig**
Diolch o galon i'r CRhA gweithgar sydd yn yr ysgol am drefnu Ffair Nadolig eleni, llwyddwyd i godi dros £400 tuag at yr ysgol – diolch i bawb fu'n rhan o'r trefnu a'r rhai fu'n cefnogi.




CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653





## Prosiect Entrepreneur

Efallai fod rhai ohonoch yn cofio mai thema dosbarth Ogwen y tymor yma oedd 'Beth yw llwyddiant?' Yn ystod y tymor maent wedi edrych ar hyn o lawer o gyfeiriadau gwahanol gan gynnwys Cwpan y Byd ac sut i fod yn entrepreneur. Uchafbwynt y prosiect oedd cyfle i greu eu busnes ei hunain yn cynllunio a chreu cacenau cyn eu gwerthu i rieni a phlant yr ysgol. Roedd y prosiect yn llwyddiant mawr nid yn unig o ran codi arian ond i ddysgu sgiliau am redeg busnes. Da iawn chi!

**Hetiau Nadolig**
Pob blwyddyn mae'r ysgol yn cynnal cystadleuaeth creu het ar gyfer ein cinio Nadolig. Eleni penderfynodd y Cyngor Eco wneud pethau ychydig yn wahanol. Eleni roeddent am i pawb greu hetiau allan o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu neu o bethau naturiol. Roedd yr ymateb yn arbennig, pawb wedi gwneud hetiau bendigedig a'r Cyngor Eco yn hapus iawn – da iawn pawb am ymdrech wych. Diolch hefyd i Anti Anwen ac Anti Dana am ginio blasus dros ben, roedd pawb wedi mwynhau.



# Llandygái

**Iona Wyn Jones**, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor
LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**
*Cyfarchion Blwyddyn Newydd!*
Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Blwyddyn Newydd Dda 2023 i bawb yn Nyffryn Ogwen ac i blant a staff ein ysgol eglwys, Ysgol Llandygai. Diolch i'r offeiriaid, y Parch Ddr Gareth Lloyd, y Parch Sara Roberts a'r Parch John Bleazard am eu gweinidogaeth a'u gofal amdanom dros 2022. Edrychwn ymlaen yn eiddgar i glywed am eu cynlluniau i ffynnu'r eglwys yn y dyffryn. Mae ein meddyliau a'n gweddiau gydag aelodau o'r gynulleidfa sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar neu mewn iechyd bregus.

*Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn ôl!*
Croesawyd cynulleidfa dda yn ôl i'n gwasanaeth traddodiadol "Naw Llith a Charol" yng ngolau cannwyll ar Rhagfyr 18fed. Braf oedd gweld goleuni'r Nadolig yn yr adeilad ar ôl 3 mlynedd. Y darllenwyr oedd Liz Bestwick, Rhian Llewelyn Jones, Edmond Douglas Pennant, Huw Llewelyn Jones, Jan Roberts, Emily McSorley-Jones, Lorelei, Blodwen ac Annie Jones, Ann E.Williams a'r Ficer Y Parchedig Ddr Gareth Lloyd. Trefnwyd y gwasanaeth gan Rhian Llewelyn Jones a Geraint Gill. 'Roedd yr eglwys yn edrych ar ei gorau a diolch o galon i'r gwirfoddolwyr a fu'n addurno'r adeilad ar gyfer y Nadolig. Ail-gynnwyd y berthynas gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda ei rhodd o goeden Nadolig hardd ac estynnwn ein diolch i'r Prif Arddwr, Gareth Crump, a'i dîm am osod y goeden yn ei lle.

Ar Noswyl y Nadolig ac ar alwad y clychau daeth cynulleidfa deilwng eto i Sant Tegai ar gyfer yr offeren hanner nos. Y darllenwyr oedd Edmond Douglas Pennant a Gwenan Llewelyn Jones. Cawsom y pleser o wrando ar garol Plygain gan Geraint Gill tra roedd y gynulleidfa yn cymuno.

*Amser Prysur*
Roedd yn Rhagfyr prysur yn St Tegai o safbwynt perfformiadau cyhoeddus. Cynhaliwyd 3 cyngerdd mewn 3 noson! Y cyntaf oedd ar nos Sul, Rhagfyr 11eg pan ddaeth Côr Merched Cantabile o dan arweiniad Anastasia Zaponidou i cynnal cyngerdd o hen ffefrynnau Nadoligaidd a gwaith cyfansoddwyr fel John Rutter. Roedd y gynulleidfa hefyd yn chwarae ei rhan drwy ganu carolau traddodiadol.

Daeth tro plant Ysgol Llandygai i ddiddanu eu rhieni a ffrindiau ar Ragfyr 13eg. Llongyfarchiadau i'r disgyblion a staff yr ysgol am gynnal 2 gyngerdd ar yr un diwrnod. Cyfarchodd y Ficer bawb yn yr eglwys, yn blant ac yn oedolion, gan ddymuno Nadolig Llawen iddynt wrth ddiolch i Mrs Lowri Pritchard am ei threfniadau ar y diwrnod ac am baratoi y plant mor dda. Derbyniodd yr eglwys y casgliad o'r 2 gyngerdd yn ddiolchgar ar gyfer Apêl Nadolig Atgyweirio St Tegai Rhan 2.

Hoffem ddiolch i'n clochyddion ffyddlon o dan Capten y Tŵr, Martin Brown am ddod i ganu'r clychau i'r cyngherddau.



**Côr Merched Cantabile yn perfformio nos Sul Rhagfyr 11eg yn St Tegai, Llandegai.**

*Diolch Arbennig*
Diolch yn fawr i aelodau a ffrindiau eraill yr eglwys yn y pentref ac yn yr ardal am eu cyfraniadau i Apêl Nadolig Eglwys Sant Tegai. Bydd yr arian ychwanegol yn helpu i barhau gyda'r gwaith sylweddol o atgyweirio adeilad pwysig o'r Canol Oesoedd. Cafwyd ymateb ardderchog hyd yn hyn a braf oedd cael derbyn rhoddion hael gan bentrefwyr neu ffrindiau o ardaloedd eraill sydd ddim yn angenrheidiol yn addolwyr cyson ond yn barod i helpu mewn cyfnod o argyfwng neu angen. Diolch hefyd i'r gynulleidfa am ei hymateb arbennig i Apêl yr Archesgob Nadolig 2022 am eitemau glendid i'r banciau bwyd lleol.

*Gwasanaethau a Manylion Cyswllt*
*Ar y Sul*
Ionawr 22ain Cymun 11yb
Ar Ddydd Mercher
Gwasanaeth 10.15, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis (sef 11eg a'r 25ain). Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn!

Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Cylch Glasinfryn**
Aeth aelodau Cylch Glasinfryn am bryd i Caffi Hen Felin yn Aber ar 16 Rhagfyr. Eleni yn lle cael pryd Nadolig llawn penderfynwyd cael pryd ysgafn amser cinio, oedd wedi plesio pawb. Diolch i Aziz a'i dîm am ddarparu ar ein cyfar mor dda. Cynhelir pob cyfarfod yn y Ganolfan am 2yp. Yna ar 8 Chwefror cawn gyfarfod blynyddol byr gyda te bach prynhawn i ddilyn, cofiwch fod croeso cynnes iawn i chwi ymuno.

**Sion Corn**
Unwaith eto eleni daeth Sion Corn a'i gorachod o amgylch y fro o Pentir i Gaerhun a Glasinfryn i ymweld â phlant yr ardal ar noson oer iawn. Diolch yn fawr iawn i Bwyllgor Carnifal Bethesda am drefnu y digwyddiad yma i roi llawenydd i blant (ac oedolion!) cyn y Nadolig.

**Cydymdeimlo**
**Mrs Rhianwen Jones**
Bu farw'n dawel yng nghwmni ei theulu yng Nghartref Glan Rhos, Brynsiencyn, yn 84 oed ar 22 Rhagfyr. 'Roedd Rhianwen a'i gŵr, y diweddar Bobby Jones, yn arfer ffermio Fferm Coed Hywel cyn iddynt symud i Bryn Hywel wedi iddynt ymddeol. Bu Rhianwen yn aelod brwd iawn o Gôr Bro Infryn bob amser yn hwyliog a llawn hwyl. Anfonwn ein cydymdeimlad at y plant, Tudor, Tegwen, Eleri a Meinir, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Mrs Margaret Hughes**
Ar 1 Rhagfyr bu farw Margaret Eleanor Hughes o Rhos Ellen, Gaerwen, gynt o Fferm Penhower Uchaf, Caerhun yn 89 oed. Tra'n byw ym Mhenhower 'roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Caerhun. Bu'r angladd yng Nghapel Disgwylfa, Gaerwen ac yna yn Amlosgfa Bangor. Derbyniwyd rhoddion tuag at Dementia UK. Cydymdeimlwn â Rhys a Shian ei phlant a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

### Clwb Hanes Rachub

Croesawyd yr artist a'r dylunydd tecstiliau Anna Pritchard i'r Clwb Criced ar noson olaf mis Tachwedd, i son wrthym am ei gwaith yn ogystal â'r dylanwadau diddorol fu arni fel person creadigol. Cafodd Anna ei magu ar fferm Glasinfryn, ac erbyn hyn mae'n byw gyda'i theulu yn Waun Wen, Glasinfryn. Yn wir, ei chefndir amaethyddol a thraddodiadau cefn gwlad Dyffryn Ogwen sydd wedi dylanwadu fwyaf arni fel artist. Mae ei theulu'n gysylltiedig â'r ardal ers canrifoedd, ac wedi ffermio mewn nifer helaeth o ffermydd lleol, e.e. Blaen y Nant, Dinas, Bronydd, a Coetmor. Dangosodd luniau hyfryd o'r hen deulu yn y mannau hyn a soniodd am eu hen arferion e.e. gwerthu llysiau ar 'stondinau' tu allan i'r ffermdai, a defnyddio cart a cheffyl i fynd o gwmpas y lle i gasglu dail, gan eu hailgylchu ymhell cyn i ailgylchu ddod yn ffasiynol! Mae'r nodweddion amaethyddol, Cymreig, lleol yn hollol amlwg yn ei gwaith gwehyddu! Yr elfen amlycaf yw clustnodau ffermydd y Dyffryn, - a gwelwyd hen lyfryn yn ei meddiant o holl glustnodau defaid yr ardal. Ymhlith y rhain roedd nôd clust fferm Llwyn Bedw - fferm sydd erbyn hyn â'i holion o dan stad newydd o dai dros y ffordd i Maes Bleddyn! Yn ei gwaith, hefyd, gwelir y pileri llechi sy'n nodweddiadol o'r tirlun, yn ogystal â ffyn bugeiliaid, cyrn, gweill a blodau gwyllt cynhenid. Dangosodd y gynulleidfa ddiddordeb mawr yn y cartheni gwlan lliwgar, a cafwyd trafodaeth hwyliog ar ddiwedd y cyflwyniad. Diolch yn fawr iawn i ti Anna!

### Hyfforddiant gan y Rhingyll Arwyn Jones

Cafwyd noson wahanol i'r arferol yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Clwb Hanes a gynhaliwyd yn Festri Carmel, Rachub



(8/12/22). Daeth y Rhingyll Arwyn Jones atom i'n hyfforddi sut i ddefnyddio'r peiriannau 'diffib' (neu beiriannau 'cicio'r galon' yn ôl rhai) a welwn yma ac acw yn yr ardal. Gwelir y rhain ym Mhlas Ffrancon, ciosg ffôn Rachub, y Clwb Criced, a Stryd Bethesda i enwi dim ond rhai llefydd, ac maen wir dweud eu bod yn gallu achub bywydau o'u defnyddio'n iawn. Mae Arwyn Jones wedi bod yn gweithio fel nyrs, a swyddog ambiwlans cyn ymuno â'r heddlu, ac mae'n parháu i weithio'n wirfoddol fel 'Ymatebydd brys,' felly roedd yn gallu rhoi gwybodaeth yn seiliedig ar flynyddoedd o brofiad. Cafodd yr aelodau roi cynnig ar roi CPR i'r cleifion ffug, a dysgu'r ffordd gywir o wneud hynny, yn ogystal ag astudio'r peiriannau eu hunain. Roedd y sesiwn yn hynod ddifyr ac yn werthfawr iawn i'r gymuned. Diolch yn fawr!

### Capel Carmel

*Gwasanaethau (am 5 o'r gloch)*
Ionawr 22: Y Gweinidog.
Ionawr 29: Oedfa.
Chwefror 5: Y Gweinidog (Cymun)
Chwefror 12: Oedfa.
Chwefror 19: Oedfa.

Ychydig ddiwrnodiau cyn diwedd mis Rhagfyr bu farw Mrs Margaret Bryn o Danrallt, Caellwyngrydd ym Mangor. Rydym ni'n cydymdeimlo gyda'i dwy ferch sef Alis a Siwan yn ogystal â theulu Margaret i gyd yn eu profedigaeth. Bydd adroddiad llawn yn dod mewn rhifyn arall o'r Llais.

Rydym ni'n anfon ein cofion at Mr Thomas Jones, Rhos y Coed, Bethesda sy'n dal i fod yn Ysbyty Gwynedd; Mr Charles Doyle, Arafa Don, Bethesda; Mrs Betty Jones, Caergroes a Mrs Glenys Edwards, Cwlyn sydd eu dwy yng Nghartref Plas Ogwen; Miss Deila Griffith yn Ysbyty Llandudno. Cofion hefyd at aelodau eraill sy'n ddi-hwyl yn eu cartrefi ar hyn o bryd.

### Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur

Ar yr 11eg o fis Rhagfyr, cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuenctid. Mi wnaeth yr ieuenctid eu gwaith yn rhagorol yn darllen, gweddïo, gyda pharti carolau, unawd, deuawd ac unawd trwmped. Diolch iddyn nhw am eu cyfraniad. Yna, mi gawsom ni gyfraniad "Awn i Fethlem" y plant. Roedd y bugeiliaid yn gwylio'r praidd liw nos ar noson glir, am noson dlos! Ac yn sydyn ymddangosodd gyda'r angel y llu nefol. Wedi clywed neges yr angel, mi aeth y bugeiliaid i Fethlehem i weld yr un bach yn y preseb. Roedd y plant lleiaf yn canu eu carolau yn dlws iawn, yn eu siwmperi a'u capiau Nadolig lliwgar ac mi gawson nhw eu harwain gan Leusa, Cadi ac Elliw i weld y baban hefyd. Diolch i'r plant a'r ieuenctid i gyd am roi naws a hapusrwydd y Nadolig i ni eleni eto, er gwaethaf popeth arall sy'n digwydd yn ein byd cythryblunus ni'r gaeaf hwn. Diolch, wrth gwrs, i'r gynulleidfa a ddaeth i'w

### Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor ar yr 8fed o Ragfyr.

Mae wedi dod i sylw y Cyngor fod pryderon diogelwch wrth groesi o Gae Rhosydd i Faes Bleddyn. Mae'r Cyngor wrthi'n gwneud ymholiadau gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn â croesffordd sydd wedi ei gynllunio.

Hoffai'r Cyngor longyfarch Y Cynghorydd Geraint Hughes a chwmni Jones o Gymru ar ennill Gwobr Gorau mewn bwyd a diod.

Blwyddyn Newydd dda i bawb gan Cyngor Cymuned Llanllechid!



Y plant hefo Siôn Corn a'i weision

cefnogi nhw hefyd. Rhannwyd rhoddion y casgliad o £160 rhwng Banc Bwyd Pesda a Chymorth Cristnogol.

Cafodd yr ieuenctid eu swper bach Nadolig nhw ar y nos Wener, a bu parti i'r plant ar fore Sul yr wythnos cyn y Nadolig. Galwodd Siôn Corn unwaith eto, er ei brysurdeb amlwg, gan roi anrheg i bob un ohonyn nhw. Diolch i Leusa, Cadi, a Dai am ddod i helpu a diolch i'r athrawon a'r trysorydd am ofalu am y bwyd. Diolch i bawb sydd wedi helpu gyda gwaith y plant a'r ieuenctid mewn unrhyw ffordd yn ystod y flwyddyn hefyd.

**Gwasanaeth Bore'r Nadolig**

Cynhaliwyd ein gwasanaeth ni am ddeg o'r gloch y bore yn ôl ein harfer. Rhai o blant ac aelodau Carmel a gymerodd ran yn yr oedfa. Diolch i Lois am y weddi ac i Efa, Nel, a Siwan am ganu "Sêr y nos yn gwenu" mor hyfryd. Diolch hefyd i Owain Morgan am gyfeilio mor gelfydd yn y gwasanaeth, ac i bawb arall am eu cyfraniadau i'r oedfa a gwneud yr awyrgylch mor gartrefol a bendithiol hefyd.

Cafodd y casgliad o £103 ei anfon at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.

**Cydymdeimlo**

Dros gyfnod y Nadolig, cafwyd y newydd bod Euros Rees wedi ein gadael, yn 90 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlon a'n cofion at Nanette, ei wraig a Stephen, Sian a Gwydion, 8 Bron Arfon yn eu profedigaeth.

## Mynydd Llandygai

Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y Dyffryn. Dim ond eich atgoffa os oes gennych unrhyw newyddion i Llais Ogwan i gysylltu â Ffion neu Iona

**Cydymdeimlad**

Daeth newyddion trist iawn am farwolaeth Mel Williams gynt o 18 Llwybr Main, mab Gladys a Glyn a phriod Jane. Dyn camera oedd Mel a bu'n byw a gweithio yn Efrog Newydd, Abu Dhabi ynghyd â Chaerdydd a Llundain ond bellach wedi ymgartrefu yn Bexhill. Rydym yn meddwl am y teulu yn ystod yr amser trist yma.


Marchnad Ogwen

**Chwefror 11eg**

**9.30am - 1pm**

**Neuadd Ogwen**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

**www.marchnadogwen.co.uk**
**facebook instagram**


## LLYTHYR

Plaid Cymru

Sian Gwenllian
Aelod o'r Senedd dros Arfon
Senedd Cymru
8 Stryd y Castell,
Caernarfon,
Gwynedd, LL55 1SE
Sian.Gwenllian@senedd.cymru
https://senedd.cymru
01286 672076

Annwyl Olygydd,

Fel cynrychiolydd ardal Arfon yn Senedd Cymru mae'n bleser cyhoeddi bod Apel Nadolig Plaid Cymru Arfon wedi llwyddo i gasglu £4,765 tuag at fanciau bwyd a chynlluniau bwyd cymunedol eleni.

Mae'n deimlad chwerwfelys, wrth gwrs. Ni ddylem fod mewn sefyllfa lle mae 8 prosiect bwyd gwahanol wedi'u sefydlu'n weddol ddiweddar o fewn un etholaeth yn unig.

Ond hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bobl hael yr ardal, ac i hysbysu eich darllenwyr fod Pantri Pesda, Bethesda ymhlith y prosiectau fydd yn elwa o'r apêl.

Cofion cynnes, a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr Llais Ogwan,

**Sian Gwenllian** AS

# Cyngor Gwynedd yn cynnig helpu drwy'r argyfwng costau byw

Mae Cyngor Gwynedd wedi creu 'siop-un-stop' ar-lein o wybodaeth ddefnyddiol ynghylch biliau cartref, budd-daliadau a mwy fel rhan o ymgyrch i sicrhau fod pobl leol yn cael yr help maent yn gymwys amdano ac yn dygymod efo'r argyfwng costau byw dros y gaeaf heriol hwn.

Yn ystod yr hydref, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd becyn gwerth £193,000 o fesurau hyd at fis Mawrth 2023 i helpu teuluoedd i gael bwyd ar y bwrdd a chadw'n gynnes.

Nawr ein bod yng nghanol y gaeaf, gyda phrisiau popeth wedi cynyddu a'r tymheredd wedi gostwng, mae'n amserol i atgoffa pobl Gwynedd o'r cymorth sydd ar gael.

Mae'r holl wybodaeth ar gael ar **www.gwynedd.llyw.cymru/CymorthCostauByw**

Gall unrhyw un ohonom fynd ar ei hôl hi gyda biliau, ond tydi hi byth yn rhy hwyr i ofyn am help a chyngor. Gall pobl nad oes ganddynt fynediad i'r we gartref ddefnyddio'r cyfrifiaduron sydd ar gael am ddim yn holl lyfrgelloedd Gwynedd i fynd i'r wefan yma. Mae'r wybodaeth ar gael hefyd mewn newyddlen a ddosbarthwyd i gartrefi'r sir ym mis Tachwedd ac mae copïau ar gael o hyd yn nerbynfeydd Siop Gwynedd ac yn llyfrgelloedd y sir.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn:

"Mae codiadau anferthol mewn prisiau a chyfraddau morgeisi yn ergyd drom i deuluoedd ar draws Gwynedd a'r sefyllfa wedi dirywio'n gyflym. Mae pobl nad ydyn nhw erioed wedi profi trafferthion yn y gorffennol yn methu â thalu eu biliau ac mae'r rheini a oedd eisoes mewn anawsterau wedi cael eu rhoi mewn sefyllfa amhosib.

"Gall yr adeg yma o'r flwyddyn fod yn arbennig o heriol hefyd, gyda chostau ychwanegol o orfod gwresogi'r cartref dros yr ŵyl a'r pwysau ar deuluoedd i fedru dathlu'r Nadolig.

"Law yn llaw â mesurau mwy hirdymor fel buddsoddi mewn cynlluniau tai, rydan ni wedi creu'r adnodd ar wefan y Cyngor sy'n crynhoi'r cyfan y gallwn ni ei gynnig mewn un lle.

"Dw i'n pwyso ar bawb i gymryd ychydig funudau i edrych ar y dudalen ar y wefan er mwyn sicrhau eich bod chi a'ch teulu yn derbyn yr holl gymorth, cefnogaeth a chyngor ymarferol mae gynnoch chi hawl iddyn nhw."

Yn ogystal â'r wybodaeth ar wefan Cyngor Gwynedd, mae'r Cyngor wedi penodi swyddogion i helpu pobl ddygymod â'r argyfwng costau byw.

Mae Chloe Roberts a Victoria Jones yn helpu i gyfeirio pobl at y cymorth sydd ar gael, er enghraifft wedi trefnu sesiynau galw heibio mewn cymunedau ar draws Gwynedd, gan weithio gyda grwpiau lleol i helpu sicrhau bod bwyd fforddiadwy ar gael i bawb sydd ei angen mewn argyfwng. Maent hefyd wedi helpu i ddatblygu rhwydwaith o ganolfannau 'Croeso Cynnes' i drigolion bregus gadw'n gynnes y gaeaf yma. Mae gwybodaeth am y lleoliadau hefyd ar y dudalen ar y wefan.

Mae Ffion Haf a Meilyr Tomos, Gynghorwyr Ynni yn brysur yn cribinio drwy'r holl gynigion a chyfleoedd sydd ar gael yn y maes er mwyn helpu pobl i ddarganfod beth sy'n berthnasol iddyn nhw. Gellir hyn fod yn gyfeiriad at gynllun gwella effeithlonrwydd ynni tŷ, neu'n help tymor byr i'w helpu drwy'r gaeaf yma. Mae'r ddau yn cydweithio gyda nifer fawr o bartneriaid yn y maes ac yn ceisio treulio eu hamser allan yn y gymuned pob cyfle posib.

# YSGOL LLANLLECHID



### Nadolig Yw!

Llongyfarchiadau i flynyddoedd 4, 5 a 6 ar eu cyngerdd yn Theatr Bryn Terfel, Pontio ar ddiwedd y tymor. Diolch i bawb a ddaeth draw i'n cefnogi a'n cynorthwyo i lenwi'r theatr! Cafwyd noson i'w chofio! Canodd ein plant yn ddisgybliedig o dan arweinyddiaeth gadarn Mrs Delyth Humphreys. Yn rhannu llwyfan hefo ni oedd Erfyl Tomos Jones, bariton o ardal Machynlleth; Côr y Penrhyn a'u hunawdydd, Caleb Rhys. Diolch i Owain Arwel Davies a Phwyllgor Côr y Penrhyn am bob cymorth. Roedd hi'n fraint wirioneddol cael rhannu llwyfan hefo Côr y Penrhyn, ac roedd y sain oedd yn cael ei gynyrchu gan y lleisiau ifanc a'r rhai profiadaol yn canu hefo'i gilydd yn cyffwrdd calon.

Diolch i Mr Owain Arwel Davies ac aelodau Côr Penrhyn am gytuno i ddod i ganu efo ni; gwefr yn wir. Diolch i'r cyfeilyddion: Frances Davies, Rhiannon Williams a Delyth Humphreys. Llawer o ddiolch i chi ein rhieni a ffrindiau'r ysgol am yr holl gefnogaeth.

### Capel Carmel

Roedd hi'n fraint i ddosbarthiadau Mrs Bethan Jones, Miss Elin Beardsmore a Ms Elen Evans gael mynd i gapel Carmel i gynnal cyflwyniad o'r Geni. Cafwyd gwledd a'r plantos ar eu gorau. Diolch yn fawr i Mrs Helen Williams am fod mor barod i weithio efo ni fel ysgol.

### Cyflwyniad Nadolig y Meithrin

Bu dosbarth Mrs Lois Nottingham yn cynnal cyflwyniad o'r Geni yn neuadd ein hysgol – gwerth ei weld!

### Sioe Llys Lloerig

Perfformiwyd sioe gan ddosbarthiadau Mrs Nerys Tegid a Mrs Rona Williams o'r enw Llys Lloerig. Diolch i Miss Rhiannon am y sgript wreiddiol a'r caneuon! Hwyl a sbri!

### Plas Ogwen

Bu dosbarthiadau Blwyddyn 1 yn canu ym Mhlas Ogwen. Cafwyd croeso twymgalon gan Mrs Sharon Williams a'r staff a derbyniwyd rhodd ariannol anrhydeddus i gronfa'r ysgol. Diolchwn o waelod calon am eu caredigrwydd a'u haelioni. Mae'n wefr gweld ein plant bach yn perthnasu a sgwrsio gyda'r trigolion. Y tro hwn, aethpwyd i mewn i'r cartref a chafodd pob un disgybl gyfle i rannu cerdyn Nadolig gyda phob unigolyn yna. Afraid dweud fod ambell un yn ei ddargrau!

### Cystadleuaeth Carol yr Wŷl

Llongyfarchiadau i'n disgyblion ar eu llwyddiant gyda chydtadleuaeth Carol yr Wyl. Daeth yr ysgol i'r deg uchaf drwy Gymru ac yna i'r pedwerydd uchaf. Cyfansoddwyd y garol gan Miss Rhiannon Williams, ac yn arwain oedd Mrs Delyth Humphreys. Canodd y disgyblion yn fendigedig yn yr ysgol ac yn Chwarel y Penrhyn, lle Cafodd ei ffilmio. Bu'n brofiad anhygoel i'r disgyblion. Ymddangosodd côr yr ysgol ar raglen Carol yr Wyl S4C ar Rhagfyr 23. Blwyddyn Newydd Dda!






Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd, dymunwn iechyd da a dedwyddwch i drigolion Talybont a'r Dyffryn i gyd.

**Babi newydd**

Llongyfarchiadau i Mark a Bethan Kendrick, 4 Lôn Ddŵr, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ar Rhagfyr 29ain ganed bachgen bach, Morgan, i'w mab Wil a'i wraig Laura ym Mhensarn, Abergele. Mae hyn, wrth gwrs, yn gwneud Rita a Hughie, 7 Lôn Ddŵr, yn hen-nain a hen-daid balch iawn. Rwy'n siwr y caiff Morgan bach groeso tywysogaidd yn y ddau gartref pan ddaw am dro i Dalybont.

**Brysiwch Wella!**

Mae Anne Pritchard, Bryn Môr, Gatws, wedi cael ei symud i Ysbyty Eryri. Dymunwn wellhad llwyr a buan i ti, Anne, a gobeithio y byddi'n cael dod adref cyn bo hir.

Ar ddiwedd mis Tachwedd cafodd Judy Hughes, Tŷ Cerrig, dynnu cataract yn Ysbyty Gwynedd. Yn ôl pob sôn mae hi'n gweld lliwiau'r jig-sos yn gliriach nac erioed. Brysied y dydd iti gael gwneud y llygad arall Judy. Fydd 'na ddim stop arnat ti wedyn!

Dymunwn wellhad buan i Dafydd, 18 Cae Gwigin, nai Judy, sydd wedi sigo ei gefn yn ddrwg. Pwyll biau hi Dafydd, a thraed i fyny am ychydig.

**Profedigaeth**

*Gary Casey*

Disgynnodd cwmwl o dristwch dros y pentref wrth inni glywed bod yr annwyl Gary Casey wedi'n gadael. Bu farw yn ei gartref ar y 5ed o Ragfyr, yn dilyn cyfnod o waeledd a ddioddefodd yn hynod o ddewr. Roedd yn 72 mlwydd oed. Dyn ei fro a chrefftwr heb ei ail oedd Gary; cymydog parod ei gymwynas ond, yn fwy na dim, yn angor i'w deulu mawr.

Gedy Sue, ei wraig; Leah, Anya, Helen a Chloe, ei bedair merch, a nifer o wyrion a wyresau sy'n meddwl y byd o'u taid. Roedd yn falch ohonynt i gyd.

Llwyddodd Danny, mab Helen, yn ei brawf gyrru ar fore'r 5ed o Rhagfyr. Mi fasa hynny wedi plesio'i daid yn fawr.

Daeth tyrfa deilwng iawn i Eglwys Glanogwen ar Rhagfyr 14eg i ffarwelio â Gary, cyn ei roi i orffwys ym mynwent Coetmor, Bethesda.

Estynnwn gydymdeimlad dwysaf i Sue a'r teulu oll ar adeg mor drist yn eu hanes.

*Ifan Jones*

Yn oriau mân bore dydd Mawrth, Rhagfyr 27, bu farw Ifan Jones, 1 Dolhelyg, yn dawel yng nghwmni ei deulu agosaf. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un sobr o anodd iddo. Treuliodd fy nhad bedwar mis yn yr ysbyty, cyn cael ei drosglwyddo i Gartref Nyrsio Ceris Newydd, lle derbynniodd garedigrwydd a gofal tyner am y chwe mis olaf o'i fywyd. Yr oedd gwylio dyn a fu unwaith mor heini yn dirywio'n gyson, nes colli pob mymryn o urddas ac ansawdd bywyd, yn drist iawn.

Diolchwn o waelod calon i Staff y Cartref, i'w Weithwraig Gymdeithasol ffyddlon, Angharad Jones, ac i bawb ohonoch chi, drigolion Talybont, a'n ffrindiau da drwy'r Dyffryn a thu draw, am eich cyfeillgarwch, eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth inni ar hyd y flwyddyn.

Diolchwn hefyd am y rhoddion hael tuag at 'Beics Ogwen' er côf am Ifan, y beiciwr brwdfrydig; a diolch i chithau, Yncl Nev, am ofalu am yr arian.

*Anna Jones, ar ran y teulu.*

**Cydymdeimlo**

Ar Rhagfyr 1af bu farw Mr. Tony Towell o Faesgeirchen, tad a thad-yng-nghyfraith i Sharon a Dylan Hughes, 54. Bro Emrys. Anfonwn gydymdeimlad dwys at ei weddw, Liz, ei ddwy ferch a'u teuluoedd.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth David Jones, mab y diweddar William a Florence Jones, 14 Dolhelyg (gynt) yn 77 mlwydd oed. 'Roedd David yn byw yn Dwygyfylchi ers rhai blynyddoedd yn dilyn ei ymddeoliad. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Capel Bethlehem**

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Ionawr 22: Y Gweinidog
Ionawr 29: Oedfa i'w threfnu
Chwefror 05: Parchg. Gerallt Lloyd Evans
Chwefror 12: Y Gweinidog
Chwefror 19: Mr. D. Glyn Williams
Chwefror 26: Y Gweinidog

Croeso cynnes i bawb.

*Cydymdeimlo*

Cydymdeimlwn yn ddwys â Barbara, Anna a Laura a'r teulu yn eu profedigaeth drist o golli gŵr, tad a thaid, sef Ifan Jones, 1 Dolhelyg, a fu farw ar 27 Rhagfyr. Gobeithiwn y bydd gwybod fod eich ffrindiau a'ch cydnabod yn meddwl amdanoch ar adeg mor drist yn eich hanes yn fodd i'ch cysuro fel teulu.

*Cefnogi Elusennau*

Unwaith eto, ar ddiwedd blwyddyn, 'rydym wedi medru cyfrannu tuag at elusennau sydd yn agos at ein calonnau ym Methlehem. Gyda diolch i aelodau Bwrlwm Bethlehem, bu'n bosib i ni anfon £100 yr un i Ambiwlans Awyr Cymru, Tŷ Gobaith a Hosbis Dewi Sant. Hefyd, yn dilyn y rhoddion a dderbyniwyd yn ein Gwasanaeth Nadolig, anfonwyd y swm o £200 tuag at waith pwysig Cymorth Cristnogol.

*Bwrlwm Bethlehem*

Ar 15 Rhagfyr bu'r aelodau yn mwynhau dau achlysur, sef cinio Nadolig ardderchog yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda, a'r te prynhawn ac adloniant gwych yn ysgol Dyffryn Ogwen.

Bydd ein cyfarfodydd yn ail-ddechrau ar bnawn Iau, 12 Ionawr, am 2 o'r gloch, a bob bythefnos wedyn.

Dewch i fwynhau panad a sgwrs. Mae croeso cynnes i bawb (nid i aelodau'r capel yn unig).

## Eisteddfod Gadeiriol Môn

**GWAHODDIAD I GYSTADLU**

Eleni eto, cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Môn, sydd yn cael ei chydnabod fel ail i'r Genedlaethol ac sydd wedi bod yn fagwrfa i lawer o sêr amlwg y byd adloniadol a diwylliannol Cymreig.

**Ddydd Sadwrn, Mai 20fed, 2023** yn **Ysgol Uwchradd Llangefni**

I barhau â'n traddodiad eisteddfodol, mae'r amrywiol bwyllgorau wedi bod yn brysur yn tynnu allan restr amrywiol o gystadlaethau fydd, yn sicr, o ddenu cystadleuwyr yn llu. Yn y cyfnod wedi holl brysurdeb y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, dyma'r union amser i droi at ddysgu geiriau, i ymarfer, i goleddu syniadau a chyfansoddi.

Drwy garedigrwydd cefnogwyr a charedigion yr eisteddfod, mae gwobrau hael i ymgeisio amdanynt ac fe fydd ambell gystadleuaeth yn cynnig ysgoloriaeth tuag at hyfforddiant pellach i'r enillydd. Ceir y manylion yn llawn ar **www.steddfota.cymru** neu yn Rhestr y Testunau.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Gair neu ddau – John Pritchard

# VIVA O REI

Ar draws y byd ar droad y flwyddyn bu miliynau o bobl yn galaru o golli Joseph ac Edson o fewn diwrnod i'w gilydd. Dau Babydd: y naill o'r Almaen a'r llall o Frasil. Joseph Aloysius Ratzinger ac Edson Arantes do Nascimento o Frasil, ond yn fwy cyfarwydd i'r galarwyr ac i'r byd fel y Pab Bened XVI a fu'n Bab yr Eglwys Gatholig Rufeinig o fis Ebrill 2005 hyd ei ymddeoliad oherwydd cyflwr ei iechyd ym mis Chwefror 2013, a'r peldroediwr Pelé a ddaeth i amlygrwydd gyntaf yng Nghwpan y Byd 1958 ac a ystyriwyd ers hynny yn un o beldroedwyr gorau'r byd erioed. Yn Rhufain a Santos bu miloedd lawer yn cerdded heibio i arch y naill a'r llall fel y cerddodd y torfeydd heibio i arch y Frenhines yn Llundain y llynedd.

A bod yn gwbl onest, ychydig a wn i am y Pab Bened ar wahân i'r ychydig a ddarllenais amdano dros y blynyddoedd ac ers ei farwolaeth. Yr un ffaith fwyaf nodedig amdano yw mai ef oedd y Pab cyntaf ers 1415 i ymddiswyddo. Mi wn fwy am Pelé mae'n debyg, er i mi synnu o glywed un o gyfranwyr y rhaglen 'Ar y Marc' ar Radio Cymru yn dweud na welodd o Pelé'n chwarae (ar y teledu) ond rhyw wyth gwaith erioed. Ond dyna'r gwir mae'n debyg am y mwyafrif ohonom ac am fwyafrif y sylwebyddion sy'n canu ei glodydd gan fod Pelé wedi treulio mwyafrif ei yrfa ym Mrasil ac nad oedd gweddill y byd yn ei weld ond bob pedair blynedd pan ddeuai Cwpan y Byd heibio.



Yn Rhufain a Santos a Llundain clywyd pobl yn dweud iddynt ddod i weld yr arch 'am ei fod yn gyfle unwaith mewn oes' ac 'er mwyn bod yn rhan o'r profiad'. Mi ofalodd Llywydd FIFA, y dadleuol Giovanni Infantino, gofnodi ei bresenoldeb trwy gael hunlun ohono a'r arch! A chlywais un o'r galarwyr yn dweud bod 'Edson wedi marw ond bod Pelé yn dal yn fyw'. Roedd y sylw hwnnw'n adlewyrchu'r geiriau Portiwgeaidd a welwyd ar seddau stadiwm Clwb Pêl Droed Santos lle safai'r arch ar ganol y cae, 'Viva O Rei'. Ie, i lawer, oherwydd dylanwad arhosol Pelé ar bêl droed ei wlad a'r byd, 'Byw Fyddo'r Brenin'. Ond y gwir trist amdani wrth gwrs yw nad oedd modd i Frenin y byd pêl droed mwy na'r Pab na'r Frenhines osgoi brath y gelyn angau.

Newydd roi heibio dathliadau'r Nadolig ydym ond buan iawn y trown ein golwg at y Pasg a dioddefaint a marwolaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Ond er pob sôn am groes a bedd, 'Viva O Rei' fydd y gri unwaith eto. Ac nid geiriau gwag wedi eu ffurfio ar seddau mud stadiwm bêl droed fydd y rhain ond cân fuddugoliaethus yng nghalon miliynau o Gristnogion am mai bedd gwag oedd hwnnw. Nid arwr nac arweinydd mewn arch mo'r Iesu ond yn hytrach yr arch i'w ddilynwyr fod yn ddiogel ynddi (fel y bu Noa'n ddiogel trwy'r Dilyw yn yr arch). Ys canodd Ann Griffiths:

Dyma Frawd a anwyd inni<br>erbyn c'ledi a phob clwy' ...<br>ffynnon loyw, Bywyd meirw,<br>arch i gadw dyn yw Duw

Gwaredwr Byw yw Crist. 'Viva O Rei.'

# DIFYRION DIGIDOL

**Deian ap Rhisiart**

Fy ngwaith i fel ymgynghorydd cynhwysiant digidol yw gweithio gyda mudiadau a sefydliadau sy'n gweithio'n bennaf trwy'r Gymraeg. Y nod yw cefnogi a chynnig hyfforddiant mewn sgiliau digidol er mwyn cefnogi eraill i ddefnyddio technoleg, tra ar yr un pryd yn hyrwyddo cynnwys Cymraeg ar y We.

Gallaf ddweud yn gymharol hyderus fod y rhan fwyaf o ddarllenwyr y golofn hon yn gyfarwydd gyda Word neu anfon ebost, ac o ganlyniad, cam naturiol wedyn yw datblygu ar hynny mewn gwahanol ffyrdd. Os ydych yn gyfforddus yn defnyddio Word neu ebostio, pam ddim mynd yn bellach i wneud bywyd yn haws?

Fel Cymunedau Digidol Cymru, mae gennym ddau gynllun yn mynd ati i gyflawni'r nod o annog pobl i ddefnyddio technoleg, ac un ffordd yw trwy gymorth hyrwyddwyr digidol, sydd fel arfer yn aelodau o staff, neu'n wirfoddolwyr hŷn neu ifanc yn y gymuned.

Mae'r cwrs hyrwyddwyr digidol yn sesiwn hanner diwrnod sydd am ddim ar gyfer gwirfoddolwyr neu staff rheng-flaen i feithrin sgiliau ar sut i gefnogi a chynorthwyo eraill yn ddigidol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys anogaeth a chyngor ar gefnogi newydd-ddyfodiaid a phobl sy'n llai hyderus wrth ddefnyddio ffonau clyfar, glinaduron neu dabledi. Nid oes angen arbenigedd uwch mewn technoleg i fod yn Hyrwyddwr, dim ond awydd i gefnogi eraill a dealltwriaeth fras o dechnoleg. Y nod yw creu clwstwr o Hyrwyddwyr digidol trwy gyfrwng y Gymraeg led-led Cymru. Yn ogystal, bydd Hyrwyddwyr yn hybu a chodi ymwybyddiaeth dros gynnwys, adnoddau a phlatfformau digidol Cymraeg.

Fel dilyniant o'r Hyrwyddwyr, y bwriad wedyn yw cynnal sesiwn anffurfiol 'Tabled a Phaned' misol ar gyfer pobl sy'n gwirfoddoli o fudiadau cymunedol, papurau bro, eisteddfodau lleol, elusennau sydd ddim mor hyderus yn defnyddio technoleg, ag sydd angen cymorth ac yn awyddus i ddysgu mwy, a datrys problemau.

Y nod gyda'r sesiynau hyn yw hybu pobl i gymdeithasu yn Gymraeg ond hefyd ddysgu sgiliau digidol newydd trwy amryfal bwnc o ddiogelwch ar-lein i adnodddau Cymraeg ar y We. Gall yr Hyrwyddwyr Digidol hwyluso'r sesiynau tra fod yr hyfforddiant yn cael ei gynnal ar sgrin rithiol. Yr ydym hefyd yn cynnig sesiynau yn benodol i roi cymorth trwy offer digidol i ddysgu Cymraeg.

Yn ail, mae'r cynllun Arwyr Digidol yn rhannu'r un nod â'r Hyrwyddwyr Digidol ond fod y sesiwn hon wedi'i hanelu at fyfyrwyr ysgolion cynradd neu uwchradd. Sesiwn ddwy awr yw hi sy'n cynnwys cyngor, cefnogaeth, a gweithgareddau difyr i bobl ifanc ar gefnogi pobl hŷn wrth ddefnyddio'r We. Byddai'r sesiwn yn anelu i godi ymwybyddiaeth am adnoddau Cymraeg i bobl ifanc ar y We, sydd wedi'i blethu â'r Cwricwlwm o ran offer digidol hanes lleol. Mae yna sgôp hefyd fel dilyniant o'r sesiwn yn yr Ysgol i gydweithio gyda chartrefi gofal lleol mewn datblygu prosiectau hanes lleol trwy'r digidol neu fel cyfeiriais yn flaenorol i adeiladu beic digidol er enghraifft.

Yr amcan yw y bydd y sesiwn ddechreuol yn arwain at ddatblygu prosiectau pontio cenedlaethau a gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc yn yr ardal leol mewn cartrefi henoed neu yn yr eisteddfod leol.

Os ydych chi'n gweld cyfle yma i redeg sesiwn Hyrwyddwyr Digidol yn eich Canolfan leol trwy gangen Merched y Wawr lleol neu os ydych yn athro mewn Ysgol ac yn gweld budd cynllun Arwyr Digidol yn eich hysgol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST. (01248 602509 / 07789 916166) carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Penblwydd Arbennig**
Penblwydd hapus iawn i Rhian Jones, Yr Ardd Fawr a oedd yn dathlu penblwydd arbennig y mis yma. Gobeithio bod Richard Ogwen a'r teulu wedi dy sbwylio, Rhian a dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

**Brysiwch wella**
Ar ôl dymuno gwellhad buan i Myfanwy Owen, Stryd y Ffynnon y mis diwethaf yn dilyn llawdriniaeth ar ei llygaid, cafodd ddamwain gan achosi niwed i'w llygaid eto. Roedd y ddamwain yn edrych yn un hegar o'r lluniau ar Facebook ac felly gobeithio'n fawr dy fod wedi cael cyfle i fendio dros y Nadolig.

Fe achosodd yr eira, y rhew a'r tywydd oer diweddar sawl problem i gartrefi ac unigolion. Gobeithio bod Nia O'Marah, Gwernydd wedi gwella ar ôl ei chodwm hi ar y rhew.

Gyrrwn ein cofion at Gwyneth Morris, Gwaen Gwiail sydd wedi bod yn yr ysbyty. Gobeithio eich bod yn cryfhau.

Cofion cynnes at Arfon Griffith, Ffordd Gerlan, sydd hefyd wedi bod yn yr ysbyty. Gobeithio dy fod yn gwella, Arfon.

**Cydymdeimlo**
Gyrrwn ein cydymdeimlad at Gwion a Lisa Williams, Ffordd Gerlan a'r plant wedi iddynt golli nain a hen nain annwyl iawn. Roedd Lilian Hughes yn byw yn Erw Las erbyn hyn ond yn Stryd Morgan Gerlan y bu iddi hi ac Irfon ei gŵr fagu eu plant, Nia ac Ian. Roedd Lilian, neu Anti Lil i mi, wedi bod yn hynod weithgar yn ei chymuned ac wedi codi arian i sawl elusen lleol. Cofion cynhesaf at Irfon ei gŵr ac i Nia, Ian a'u teuluoedd. Bydd bwlch mawr ar ei hôl.

Cydymdeimlwn hefyd efo Helen a Merfyn Williams, Ciltwllan. Bu farw eu mab yng nghyfraith Gary Casey o Dal y Bont ar y 5ed o Ragfyr. Ein cofion atoch ac yn arbennig efo Susan, y genod a'r teulu i gyd.

**Countryfile**
Os oeddech chi'n gwylio Countryfile ar yr 11eg o Ragfyr, mae'n debyg eich bod wedi gweld sawl wyneb cyfarwydd ar y rhaglen. Braf oedd gweld dau o'r Gerlan yn serennu yn yr eitem, sef Caleb Rhys oedd yn arwain ymarfer Côr Meibion y Penrhyn ac Ianto Shea a oedd yn siarad am ei waith fel warden ynni efo Dyffryn Gwyrdd. Da iawn hogia!

**Agoriad Llaethdy Gwyn**
Agorodd yr hen Eglwys Gatholig ym Methesda ar ei newydd wedd nos Lun y 19eg o Ragfyr - fel llaethdy! Mae Carrie Rimes (Gwernydd) a'i chwmni caws, Cosyn Cymru, yn adnabyddus iawn i ni gyd ac yn genedlaethol. Mae wedi bod yn cynhyrchu caws ers sawl blwyddyn bellach ac wedi ennill gwobrau di-ri am ei chynnyrch. Ar ôl blynyddoedd o waith caled a di-flino, mae Carrie wedi llwyddo i addasu'r hen eglwys yn llaethdy a chartref i'w busnes. Roedd noson agored llaethdy Gwyn cyn y Nadolig yn llwyddiant ysgubol. Roedd cyfle i rai cael taith o amgylch y llaethdy ei hun tra roedd cyfle i eraill brynu caws a nwyddau lleol yn y siop a chael mins pei a diod Nadoligaidd. Edrychwn ymlaen at agoriad swyddogol Llaethdy Gwyn yn y misoedd nesaf a dymuniadau gorau iti Carrie gyda'r fenter gyffrous yma.

**Diolch**
Dymuna Ann Williams, Stryd y Ffynnon, ddiolch o waelod calon i deulu, ffrindiau, a chymdogion am bob caredigrwydd a dymuniad da a dderbyniodd yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch am yr holl gyfarchion, galwadau ffôn, ymweliadau, blodau, cardiau, a phob rhodd arall a dderbyniodd tra yn yr ysbyty, ac wedi dod adref. Mae Ann yn gwerthfawrogi caredigrwydd a chonsyrn pawb yn fawr iawn, ac mae ei dyled i'w holl ffrindiau yn anferth. Diolch i chi i gyd!

**L. Sturrs**
**a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
**Hen Iard Stesion, Ffordd y Stesion, Bethesda**
**Ffôn: 600953**
**lsturrs@googlemail.com**

# Marchnad Ogwen

Dyma gau pen y mwdwl ar 2022 gyda Marchnad mis Rhagfyr fywiog hyfryd. Daeth nifer dda i'n cefnogi ac i fwynhau Hogia'r Bonc yn rhoi naws arbennig i'r bore. Diolch Hogia! Bu canmol ar y lobsgows oedd ar gael hefyd! Ni fu'n flwyddyn hawdd gan ein bod wedi gorfod colli rhai Marchnadoedd oherwydd y gwaith adnewyddu yn Neuadd Ogwen ond awn ymlaen yn hyderus am 2023! Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi ein cefnogi ni – a thrwy hynny, gymuned Dyffryn Ogwen - yn ystod 2022.



Mae caws o safon rhyngwladol yn cael ei gynhyrchu yma ym Methesda erbyn hyn. Pob dymuniad da i Carrie Rimes, Cosyn Cymru sydd wedi addasu'r hen Eglwys Gatholig yn llaethdy i wneud caws a iogwrt o laeth dafad. Mae Carrie yn y Farchnad yn fisol yn gwerthu'r caws a'r iogwrt blasus yma. Dewch i flasu!

Croeso i stondin newydd Tyfu Eryri, Brynrefail i'r Farchnad. Mae hon yn stondin ddiddorol iawn, sef llysiau hydroffonig. Mae'r llysiau bychain yn tyfu mewn dŵr a gallwch brynu pecyn cynhwysfawr i dyfu rhai yn y cartref. Croeso mawr i Sheena Lewis.

Mae dwy Stondin yn eisiau yn y Farchnad sef Cig a Bara.

Nid oes sicrwydd bod lle i Stondinau Elusen ar hyn o bryd. Pan fo ein Stondinau parhaol ni i gyd yn bresennol, mae'r Neuadd yn llawn. Fodd bynnag, mae croeso i chwi gysylltu trwy e-bost gyda'r ysgrifennydd i holi os oes lle. ysgrifennydd@marchnadogwen.co.uk

Ar ran pawb ym Marchnad Ogwen, Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu yn 2023. Mae'r Farchnad nesaf Chwefror 11eg o 9.30 tan 1.00.

Mae gwybodaeth llawn ar Facebook ac ar ein gwefan **www.marchnadogwen.co.uk**

# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts



**Terfynu blwyddyn ar nodyn uchel**

Wedi prysurdeb eithriadol misoedd Tachwedd a Rhagfyr mae'r côr yn barod i gychwyn blwyddyn newydd yn llawn hyder a gobeithion am fwy o lwyddiannau. Daeth y flwyddyn a aeth heibio i ben gyda pherfformiadau o flaen cynulleidfaoedd mawr ym Mangor ac yn Llanelwy.

Yn y ddau le hyn cododd y gynulleidfa ar eu traed i gymeradwyo perfformiadau'r artistiaid, sef Rhys Meirion, Band Arian Deiniolen a'r côr yng Nghadeirlan Bangor ac 'Only Boys Aloud' a'r côr yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy.

Roedd rhai o unawdwyr ifanc 'Only Boys Aloud' yn wirioneddol wych. Ar ben hynny, canodd y côr gyda chôr plant Ysgol Llanllechid yn eu cyngerdd Nadolig hwy a gynhaliwyd yn Pontio a bu canmol mawr ar berfformiadau'r plant yn y fan honno hefyd.

**Blas ar raglen 2023**

Gweddol dawel ydy hi ym mis Ionawr ac felly hefyd ym mis Chwefror gyda dau gyngerdd yn Henllys yn unig.

Ym mis Mawrth bydd cyngerdd ar y cyd gyda Chôr y Brythoniaid o Flaenau Ffestiniog. Yna'n nes ymlaen ym mis Ebrill byddwn yn teithio i fyny i Huddersfield ar wahoddiad Côr merched y dref honno. Bydd pobl Dyffryn Ogwen y cofio i'r côr marched gymryd rhan yn Eglwys Glanogwen mewn cyngerdd i godi arian at apêl trwsio tŵr yr eglwys. Holodd Llais Ogwan rai o wŷr Côr y Penrhyn am eu hymateb i'r newyddion.

Roedd Maldwyn Pritchard a Henryd Jones yn edrych ymlaen yn eiddgar at y daith. "Un o brif atyniadau bod yn aelod o gôr meibion ydy'r cyfle a ddaw i'n rhan i gyfarfod a gwneud ffrindiau gydag aelodau o gorau eraill" meddai Henryd.

Ategodd Maldwyn hynny gan ychwanegu, "Pan ddaeth merched Huddersfield i Fethesda cefais y fraint o sgwrsio'n hir a diddorol gyda dwy neu dair ohonynt a dwi'n edrych ymlaen at ail gynnau'r sgyrsiau hynny," meddai.

Mae'n debyg mai uchafbwynt blwyddyn y côr fydd cael mynd i Rochdale ym Mis Gorffennaf i ganu gyda Band Black Dyke, un o brif fandiau pres Ewrop. Bu'r côr yn rhannu llwyfan gyda'r band byd enwog hwnnw ar ddau achlysur o'r blaen, a hynny yn 'Venue Cymru', Llandudno.

Mae'r aelodau'n edrych ymlaen yn eiddgar at y cyngerdd lle cawn gyfle i berfformio ag aelodau'r band unwaith eto. Un a fwynheuodd berfformiadau'r band yn fawr oedd Frêd Buckley o Dregarth. Meddai Fred, "Mae gwrando ar fand yn perfformio yn un o'r profiadau arbennig hynny sy'n codi dyn i lefel arall," meddai Fred. "Rydw i am ddiolch i Owain Arwel ein harweinydd am ein cyflwyno i Fand Black Dyke. Mwynheais i nhw'n fawr ac fe hoffwn bwysleisio fy mod wedi mwynhau band Deiniolen yn y cyngerdd codi arian i hosbis Dewi Sant hefyd".

Er nad yw'r sylwadau uchod yn cyfeirio at gyngherddau lleol fel rhai Henllys, Sant Ioan a chapel Jerusalem dydyn ni ddim yn anghofio mai'r cyngherddau lleol hynny ydy bara menyn y côr ac ni fuasai ymweld â lleoedd pellenig yn bosibl heb y gefnogaeth leol hollbwysig i berfformwyr fel Côr y Penrhyn. Gwyliwch am gyhoeddiadau yn nes at y dyddiadau am rai o'r cyflwyniadau hynny.

**Tri Emyr**

Yn lle'r eitem arferol yn holi un aelod o'r côr, cyhoeddwn y mis hwn lun o dri aelod sy'n rhannu'r un enw. Y tri ydy Emyr Fôn Ifans (Ems Fôn) o Gaernarfon, Emyr Jones (Emyr Plymar) o Lanrug, y ddau'n canu gyda'r bas cyntaf, ac Emyr Roberts (Emyr Cemist) o Fethesda sy'n ail denor. Mae Ems Fôn wedi bod yn aelod o'r côr ers 40 mlynedd, Emyr Plymar ers 30 mlynedd ac Emyr Cemist ers dros 6 mlynedd. Hyderwn y byddant yn aelodau am flynyddoedd eto.



Emyr Roberts, Emyr Jones ac Emyr Fôn Ifans.

# Tanchwa Fochriw, Dowlais, 1902

Mae'n debygol fod y rhan fwyaf o ddarllenwyr y Llais yn ymwybodol o wefan Hanes Dyffryn Ogwen, gan Dr John Ll. Williams a Lowri W. Williams, ac i'r rhai ohonoch sydd heb ymweld a'r safle yma, rydych yn cael colled gan fod pob math o erthyglau diddorol am hanes ein dyffryn yn ymddangos arni o fis i fis.

Un o'r erthyglau a ymddangosodd y mis diwethaf oedd hanes Eglwys St. Cross, Talybont. Yn yr adroddiad mae sôn am danchwa Fochriw, Dowlais, 1902, lle lladdwyd wyth o ddynion fis Mehefin 1902. Yn eu mysg roedd dau o ardal Dyffryn Ogwen, a oedd wedi ymfudo i lawr i'r De i weithio yn y pyllau glo, oherwydd streic y Penrhyn a oedd yn ei hanterth (1900-03).

Y ddau oedd Owen Williams, o Dalybont, gŵr priod 37 oed ag un plentyn ganddo, a Robert Thomas Hughes, bachgen 18 oed o Caellwyngrydd. Fe gludwyd eu cyrff yn ôl i Fethesda gyda thrên o Dowlais, Roedd Côr y Penrhyn yn digwydd bod i lawr yn y De yn cynnal cyngherddau i godi arian tuag at y streic, a'r Côr wnaeth hebrwng y cyrff at y trên yno. Claddwyd Owen Williams ym mynwent eglwys St Cross, a Robert Thomas Hughes, ym mynwent Coetmor, Robert ar ddydd Sadwrn ac Owen ar ddydd Sul. Mae llun o garreg fedd Owen Williams yn ymddangos yn yr erthygl, ond nid oedd carreg wedi ei gosod ar fedd Robert T. Hughes, ac felly nid oedd modd bod yn hollol sicr lle y claddwyd ef, gan fod nifer o'r beddau o amgylch heb gerrig arnynt. Fodd bynnag, wrth wneud ychydig o ymchwil rwyf wedi darganfod lleoliad ei fedd, a'i frawd Owen Thomas Hughes, a fu farw yn 33 mlwydd oed yn 1905. Felly gan mlynedd ag ugain o flynyddoedd ar ôl y drychineb mae modd talu parch i fachgen ifanc a gollodd ei fywyd oherwydd amgylchiadau streic fawr y Penrhyn.

**Andre Lomozik**


BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

(Darlith wyneb yn wyneb a rhithiol drwy gyfrwng Zoom)

**Nos Lun, 13 Chwefror, 2023**
**7.00 Cadi Iolen**
**Gwaith Curadurol**

Wyneb yn wyneb: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda.
Cofrestrwch efo **garethllwyd197@btinternet.com**

Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo **bethan@ogwen.org**

Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun, Chwefror 13eg,
ar yr hwyraf os gwelwch yn dda

**Tal Aelodaeth**
£10.00 i rai mewn gwaith | £5.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00
Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen'
drwy: BACS: 40-16-02 41386212 Neu drwy siec.

Eglwys Unedig Bethesda

## Y GYMDEITHAS

**BINGO CERDDOROL**
gydag Edwin Humphreys
Festri Jerusalem
**Nos Iau, 9 Chwefror**
am 7.00 o'r gloch

Canolfan Cefnfaes

## Gyrfa Chwist

**Ionawr 24 a 31**
**Chwefror 14 a 28**
am 7 o'r gloch. Croeso i bawb


STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com


# Iaith Pesda

## gan Mary Jones

**Ambell air**

'cymowta' - rhyw grwydro o gwmpas, defnyddir 'galifantio' hefyd, weithiau yn ddilornus, "Mae o/hi yn galifantio tra dwi'n gweithio yn galad yn fanma"
'llibindian' neu 'llybindian' – bod yn ddifater, difeddwl, diog
'llyfiad' 'slemp' 'slempan' – 'Doedd hi ddim mor hawdd i ymolchi ers talwm chwedl a'r dyddiau yma, ond byddai pobl yn dueddol o molchi'n sydyn cyn picio allan ac felly dim ond rhyw daro cadach dros wyneb, a byddai'r dwr yn oer fel arfer.
'O hil gerdd' – eroied, ers cof, Rhai drwg ydy'r teulu yna o hil gerdd.
Oel lamp – paraffîn
'Pric pwdin' – rhywun sy'n cael ei wawdio neu ei ddilorni, e.e. mae nhw yn gwneud pric pwdin ohono fo.
'Plant y fall' – plant drwg, plant uffern e.e. "Cerwch o ngolwg i blant y fall."
Diolch i Myrddin Williams, cynt o'r Gerlan

**'Cropar o wisgi'**

Y tro diwethaf, roedd Derfel Roberts yn sôn am darddiad y gair 'cropar' yn yr ymadrodd 'cropar o wisgi'. Mi ges i wybod fod esboniad yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru. Daw'r gair 'cropar' o air Saesneg tafodieithol, 'croppa' a oedd yn enw ar botyn pridd caled ( *stoneware jar* yn Saesneg ). Roedd yn cael ei ddefnyddio fel mesur bychan o win neu wirod mewn tafarnau ers talwm. Dim ond yma yn y Gogledd yr oedd yr ymadrodd 'cropar o wisgi' i'w glywed. Tybed a ddaeth y gair i'r ardal efo gweithwyr o Loegr a ymfudodd yma yng nghyfnod datblygu'r chwareli llechi.

**Lliwiau – llwyd a glas**

Pa liw ydi papur llwyd? Diddorol ydi ein bod yn defnyddio'r gair 'llwyd' at liw papur o liw brown. 'Bag papur llwyd', 'papur lapio llwyd' ac 'amlen lwyd' ddywedwn ni. Gair Saesneg ydi '*brown*' wrth gwrs, a dim ond yn gymharol ddiweddar y daeth yn rhan o'n hiaith ni. Cyn hynny, y geiriau oedd yn cael eu defnyddio am y lliw brown oedd 'llwyd' a 'coch'. Dyma enghreifftiau o ddefnyddio 'coch' yn cyfateb i'r lliw brown: siwgr coch, buwch goch, iâr goch, bara coch, cwrw coch (*mild beer*).

Beth am y gair 'glas'? Ran amlaf mae o'n cyfateb i'r gair '*blue*' yn Saesneg, fel yn 'awyr las', ond mewn rhai achosion mae o'n medru golygu 'llwyd' sef '*grey*' yn Saesneg, e.e. crëyr glas, march glas, merlen las, carreg las ( llechen las), ac yn yr ymadrodd 'yng nglas y bora' am y wawr. Mae 'glas' hefyd yn gallu golygu 'gwyrdd', e.e. 'glaswellt' a 'gwelltglas' (neu gwellt-glaes fel y dywedwn yma), ac yn yr ymadrodd y dwedwn ni yn y gwanwyn 'Mae hi'n dechrau glasu' pan fydd y coed yn deilio a'r caeau yn troi yn wyrdd.

A beth am dipyn o hwyl cyn gorffen! Dyma ychydig o'r rhestr oedd gan Margaret Llechid Roberts o'r hyn mae rhieni yn ddweud wrth eu plant.

Dydi prês ddim yn tyfu ar goed 'sti.

Dwi'n deud wrth dy dad.

Fasa Twm yn rhoi i fys yn tân, fasa chdi?

Os ti'n boddi, paid a dod adra! Dwi'n cyfri i dri – UN, DAAAU, DAU AHANNAAAR ----Tri...REIT

Idishido.

Ma - isio mynadd

Pwy faga blant?

# YSGOL ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN

### Neuadd Ogwen
Cafodd blant Pesda amser gwych yng nghwmni Aled Hughes a chriw BBC Radio Cymru yn Neuadd Ogwen yn creu sylwebaeth fyw o gêm bêl-droed. Bu iddynt fwynhau canu Yma o Hyd gyda Moniars yn ogystal. Profiadau bythgofiadwy.

### Ffrindiau Oes
Braf oedd croesawu rhieni i Ben-y-bryn er mwyn cyflwyno rhaglen ‘Ffrindiau Oes’. Rydym yn edrych ymlaen yn arw at roi’r cynllun ar waith yn y flwyddyn newydd i ddatblygu gwydnwch.

### Sioe Y Bachgen Bach Gwyrdd
Cafodd y disgyblion amser gwych yn Pontio yn gwylio sioe Y Bachgen Bach Gwyrdd. Bu iddynt fwynhau’r rapio a chymryd rhan, gan gofio’r neges bwysig ei bod hi’n iawn i fod yn wahanol.

### Cinio Nadolig
Diolch i holl staff y gegin yn y ddwy ysgol am y cinio Nadolig blasus unwaith eto!

### Ymweliad PC Andrew Jackson
Hoffwn groesawu PC Andrew Jackson i’r dalgylch. Cafodd y disgyblion gyflwyniad ar sut i gadw yn ddiogel ar y we gan ddefnyddio rheolau SMART gan hefyd rannu negeseuon pwysig iawn am hiliaeth. Cafodd plant Abercaseg hefyd brofiad o wisgo dilladau'r gwasanaethau brys a dysgu pwy i alw mewn argyfwng.

### Trip Nadolig Pili-Palas
Cafodd plantos Abercaseg drip i’w gofio ym Mhili Palas yn ddiweddar. Buom yn ddigon ffodus i gael gweld y dyn ei hun, ia wir, Siôn Corn! Mi fuodd yn ffeind tu hwnt, ac mi roddodd anrheg i bob plentyn. Cafodd y plant andros o fwynhad yn addurno bisgedi Nadoligaidd a digonedd o hwyl a sbri yn yr ardal chwarae. Hoffai’r Ysgol ddiolcho galon i Pili Palas am eu croeso cynnes.

### Plas Ogwen
Yn dilyn yr elw a wnaethpwyd o’r Disgo Calan Gaeaf, penderfynodd y Sgwad Syniadau wario’r arian ar focs yn llawn o anrhegion bendigedig i’r henoed ym Mhlas Ogwen. Felly, i ffwrdd â ni i Tesco i brynu nwyddau a chreu dau hamper gwefreiddiol yn llawn o ddanteithion blasus.

Aeth y Sgwad Syniadau a Blwyddyn 2 i Blas Ogwen brynhawn dydd Mawrth i ganu carolau ac i roi’r anrhegion i’r henoed.

Dyma brynhawn cwbl arbennig, gyda’r plant yn dweud eu bod wedi mwynhau’r profiad yn arw! Dyma wir ystyr y Nadolig, ac mae plant Abercaseg wedi dangos eu caredigrwydd ac wedi canu’n wych. Diolch blantos a diolch Plas Ogwen am y croeso cynnes ac am y bisgedi.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i chi gyd gan holl ddisgyblion a staff Pen-y-bryn ac Abercaseg!







## Sioeau Nadolig
Ysgol Abercaseg: Tydi cyfnod y Nadolig ddim yn gyflawn heb gyngerdd Nadolig! Cawsom berfformiad arbennig gan yr holl blant yn dysgu sut brofiad ydy cael Nadolig ym Mhentref Bach! Roedd y plant wrth eu boddau yn cael rhoi perfformiad bythgofiadwy i’w rhieni ac wedi dysgu eu gwaith yn arbennig. Heb os, roedd pob un yn disgleirio ac yn haeddu gwyliau dros yr ŵyl.

Ysgol Pen-y-bryn: Cawsom sioe a hanner yn neuadd Dyffryn Ogwen. Roedd holl blant yr ysgol yn sêr a phob un ohonynt yn disgleirio ar y llwyfan. Diolch o galon i’r holl ddisgyblion am y sioe hwyliog ac i’r holl staff am eu gwaith diflino.







Elusen Ogwen yn dosbarthu nwyddau a chyngor ar sut i arbed ynni


SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

sian.gwenllian@senedd.cymru

01286 672 076

70 Stryd Fawr, Bangor

Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol

LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein

07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

## Cais am Wirfoddolwyr

Mae Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru yn chwilio am wirfoddolwyr i ddarllen Llais Ogwan a'i recordio ar CD.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Nick Thomas, Swyddog Datblygu CDGC: nick@nwsb.org.uk

Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru -
'Cefnogi pobl sy'n byw gyda cholli golwg'


# Nyth y Gân

## Clawdd Mynydd

Fel llunio cerdd fydd codi clawdd,
Geiriau neu gerrig, nid yw'n hawdd;
O'u gosod hwy naill wrth y llall
Daw patrwm yno yn ddi-wall.

Y meini mwyaf roir yn llawr
Yn un rhes dwt â gofal mawr,
Ac yna gosod wneir y rhain –
Rhai cerrig crwn a'r lleill yn fain.

Edmygu wnaf gadernid hwn
Fu'n gwarchod yno'n hir, mi wn,
Y ddafad efo'i gwantan fref
Yn anterth gwyllt y ddrycin gref.



## Awr gyfyng yn yr Ysbyty

Ni chlywaf sŵn o unlle,
Dim cwmni dan y nen,
A theimlaf y gwagleoedd
A'r gwacter mawr uwchben.

## Cofid

Ar led yn anweledig drwy y byd
Heria'r byw mor lloerig;
Ei aflwydd sy'n ddieflig,
Un trwm lle bynnag y trig.

Drwy'r byd o hyd mae'n hedeg, a ninnau
Sy'n wannach na'i dechneg;
Daw'r un chwim drwy drwyn a cheg
Yn elyn mewn bioleg.

Yma daeth i'n cymdeithas i chwilio
A chwalu perthynas;
Â gwae daeth i godi ias,
Dwyn cwymp i'r byd o'n cwmpas.

**Dafydd Morris**

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

**Diolch**
Dymuna Rhiannon Efans, 1 Ffordd Pant, ddiolch yn fawr i bawb am eu cymorth a'u caredigrwydd yn dilyn ei damwain, pan lithrodd ar y rhew ddydd Iau, 15 Rhagfyr, gan dorri ei choes yn ddrwg iawn. Fedr y teulu ddim diolch digon i Dennis a Shirley, Glan Ffrydlas, ac i Gareth Williams, yr ymgymerwr, oedd yn digwydd bod yno ar y pryd. Diolchiadau arbennig hefyd i reolwraig a staff Plas Ogwen am ddod â chadair olwyn i gludo Rhiannon adref. Roedd gwasanaeth y gweithwyr ambiwlans yn ardderchog. Diolch iddynt hwythau yn ogystal a'r meddygon a'r nyrsys yn Ysbyty Gwynedd. Diolch o waelod calon i bawb.

**Cartref Newydd**
Croeso cynnes i Mrs. Doris Shaw sydd wedi ymgartrefu yn Arafa Don.

**Profedigaethau**
*Gary Richard Casey*
Ar 5 Rhagfyr, yn ei gartref yn Nhalybont, bu farw Gary Richard Casey yn 72 mlwydd oed. Priod annwyl Susan a thad hoffus Leah, Ania, Helen a Chloe. Roedd yn daid caredig ac yn frawd i Brian, Calvin, Pat a Keith. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Crist Glanogwen a mynwent Coetmor ddydd Mercher, 14 Rhagfyr, dan arweiniad y Parchg. Sara Roberts. Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn Nhalybont ac yma ym Methesda.

*Thomas Haydn Price*
Yn ei gartref, 45 Stryd Fawr, ar 22 Tachwedd, bu farw Thomas Haydn Price yn 69 mlwydd oed. Mab y diweddar Tom a Nell Price, Ffordd Penchwintan, Bangor, a brawd i Hughie Price. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Mawrth, 20 Rhagfyr. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

**Elwyn Jones & Co**
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni* (01248) 723106 *Porthaethwy* (01248) 719517 *Benllech* (01248) 852782
*Caernarfon* (01248) 673616 *Pwllheli* (01758) 703000

**Gorffwysfan, Stryd Fawr**
Ar ddydd Mercher, 30 Tachwedd, aeth yr aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Farchnad Bury. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau.

Yna, ar ddydd Gwener, 2 Rhagfyr, cafodd aelodau'r Clwb eu cinio Nadolig yn yr "Innings", Llandygai. Yn dilyn y cinio ardderchog, cafwyd raffl, a diolch i bawb am y gwobrau, ac i'r cyfeillion fu'n trefnu.

Dydd Iau, 15 Rhagfyr, cafwyd gwahoddiad i'r te prynhawn ac adloniant yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Cafwyd te ardderchog ac adloniant safonol iawn. Diolch i bawb fu'n paratoi'r cyfan.

Cofion cynnes at yr aelodau sy'n sâl, a blwyddyn newydd dda i chi, sef: Mrs. Val Amos, Glanogwen, Mrs. Ann Fôn Williams, Gerlan, Mrs. Christine Jones, Rachub, Mrs. Mary Owen, Maes Coetmor, a Mr. Junior Dignam, Ffordd Stesion.

**Triniaeth**
Anfonwn ein cofion at Kevin Glyn Owen, Erw Las, wedi iddo dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Gwellhad buan Kevin.

**Marwolaeth**
Yn frawychus o sydyn bu farw brodor o Fethesda, Peter Pritchard, yn Brighouse Swydd Derby. Roedd Peter yn fab i'r diweddar Arfor a Peggy Pritchard, Hen Barc gynt. Magwyd Peter yng Nghiltrefnus gyda'i daid a'i nain, John Michael a Marjory Hughes ac yr oedd yn nai i Donald Hughes. Cafodd ei addysg yn Ysgol y Gerlan ac yn Ysgol Dyffryn Ogwen, cyn mynd i'r coleg ym Mangor a graddio mewn daearyddiaeth. Bu'n brifathro yn Ysgol Toxteth, Lerpwl ac wedyn yn Huddersfield nes iddo ymddeol. Bu'n ymweld â Bethesda gan gerdded yr ardal yn aml gyda chyfeillion a'u diddori gyda'i wybodaeth am ddaeareg lleoedd fel Cwm Idwal. Mae'n gadael gwraig, Wan a chydymdeimlwn â hi a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Gethin Huw ac Angharad Williams o Fraichmelyn ar enedigaeth eu mab bach, Gerallt Jac, a aned ar y 12fed o Ragfyr. Mae'r teulu i gyd yn ei groesawu'n fawr.

**Profedigaeth**
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Lilian Hughes, 33 Erw Las, Bethesda. Roedd yn briod gariadus i Irfon, ac yn fam arbennig iawn i Nia ac Ian, mam yng nghyfraith Kevin a Sharon, ac yn nain hoffus i Gwion a Lisa Sioned a Wyn, Daniel, Chloe a James, hen nain arbennig Aron, Osian, Gwion Jac, Elliw Mai, Deian Siôn, Alys Wyn a Loti Fflur. Roedd Lilian yn gyn-gynghorydd ac Ynad Heddwch ac yn adnabyddus iawn yn yr ardal am ei holl ymdrechion i gasglu arian tuag at achosion da yn yr ardal a thu hwnt. Bydd yn gadael bwlch mawr ar ei hôl. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf tuag atoch fel teulu yn eich profedigaeth.

*Dymuna teulu Lilian Hughes ddiolch am bob arwyddo gydymdeimlad, a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth gan deulu a ffrindiau. Diolch i Feddygfa Bethesda am eu gofal arbennig, i Gareth Williams am ei drefniadau ac i Dafydd Coetmor a Mrs Helen Williams am yr oedfa.*

**Carnifal Bethesda**
**Taith Siôn Corn**
Bu'r daith yn llwddiant mawr eto eleni gan alw i weld pawb yn yr ardal. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r canlynol;

- Gordon Robertson, Maes Bleddyn am greu sled wych
- Elain boss Gordon am yr arwydd "Nadolig Llawen Pesda"
- C. L. Jones am rai o'r nwyddau.
- Dewi Griffith – Moduron Pandy am gymorth gyda'r gwaith trydan.
- Medwyn Thomas Jones am y defnydd o'r trelar
- Robin Williams am ddreifio'r sled dan amodau heriol iawn, gan fynnu cyrraedd pob cornel o'r dyffryn!

Bu dewis y Breindal o Ganolfan Cefnfaes ar ddiwedd y daith. Diolch yn fawr i bawb a roddodd gais, yn anffodus does dim modd dewis pawb, ond edrychwn ymlaen i weld pob fflôt a gwisgoedd ar ddiwrnod y carnifal.

**Breindal 2023**
Brenin – Robin Glyn Owen (Ysgol Llanllechid)
Brenhines – Efa Rhodd Roberts (Ysgol Penybryn)
Tywysog – Elis Emlyn (Ysgol Llanllechid)
Tywysoges – Efa Mai Hughes (Ysgol Llanllechid)

**Dyddiadau Pwysig**
24/02/23 – Noson Adloniant, Cyri a Raffl Clwb Criced a Bowlio, Bethesda
15/04/23 – Bore Coffi Canolfan Cefnfaes
12/05/23 – Seremoni Coroni Ysgol Dyffryn Ogwen
20/05/23 – Y Carnifal

**Clwb y Dyffryn**
Cafodd y clwb henoed newydd, Clwb y Dyffryn, fwffe Nadolig ar 13 Rhagfyr – y cyfan wedi ei goginio gan Karen – a doedd dim ar ôl! Diolch yn fawr, Karen. Roedd o'n arbennig.

Cafodd Joe Hughes ei godi'n Drysorydd Aelodaeth, ac mi fydd aelodaeth yn £5 am y flwyddyn.

Bydd y clwb yn Gorffwysfan am 2 o'r gloch ar 24 Ionawr ac 14 Chwefror.

# Yr Eglwys Unedig

**Cyfarchion**
Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch! Gobeithiwn i chwi gael Nadolig wrth eich bodd, ac y bydd 2023 yn dod â bendith i chwi i gyd.

**Bore Coffi**
Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus dros ben yn y Festri fore Sadwrn, Rhagfyr 10, a daeth nifer sylweddol, er gwaethaf y tywydd garw, i'n cefnogi. Gwnaethpwyd elw o dros £400 at y Capel, a diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at yr achos.

**Yr Ysgol Sul**
Hyfryd oedd gweld y plant a'u hathrawon yn cynnal eu Gwasanaeth Nadolig fore Sul, Rhagfyr 11. Cafwyd orig fach bleserus yn eu cwmni, ac mae'n diolch yn fawr iddynt am eu parodrwydd i gymryd rhan.

**Profedigaeth**
Trist iawn yw cofnodi fod ein Gweinidog newydd, Y Parchedig Nerys Griffiths, wedi colli ei mam, sef Mrs Rhiannon Pritchard, ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf ati hi, ei thad, sef Y Parchedig Huw Pritchard, a'r teulu oll yn eu galar.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sydd yn methu bod gyda ni yn yr oedfaon oherwydd llesgedd. Cofiwn yn arbennig y tro hwn am Rhiannon Ifans, sydd ar hyn o bryd yn dal yn yr ysbyty yn dilyn damwain ddrwg iawn. 'Rydym yn meddwl amdanoch, ac yn gobeithio eich bod yn gallu mwynhau gwrando ar y gwasanaethau ar y ffôn.

**Gwasanaeth Nadolig Cymunedol**
Cynhaliwyd y gwasanaeth uchod nos Sul,




Rhagfyr 18, yn y Capel, a daeth cynulleidfa deilwng iawn i wrando ar Gôr Meibion y Penrhyn, o dan arweiniad Owain Arwel Davies a chyfeiliant Frances Davies, Côr Ysgol Dyffryn Ogwen, o dan arweiniad Andrew Thomas, Rhiannon Elfyn a Caleb Rhys yn cyflwyno datganiadau cerddorol safonol dros ben. Yn ogystal, cafwyd darlleniadau graenus a phwrpasol gan Ceri Dart, Luned Elfyn, Llinos Hanson, Neville Huws, Lowri Roberts a Nerys Williams. Ac i goroni'r cwbl, 'roedd cyfeiliant Beti Rhys ar yr organ yn hwb anferthol i ni'r gynulleidfa, ac fe ganwyd y carolau i gyd gydag arddeliad! Gwnaethpwyd casgliad ar y diwedd, a daeth dros £400 i law – swm anrhydeddus iawn. Bydd rhan ohono yn mynd i Blas Ogwen, a'r gweddill i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Mawr yw ein diolch i chwi oll am eich haelioni, ac am eich cefnogaeth i'r digwyddiad pwysig hwn yn y Dyffryn. Diolch hefyd i Dilwyn Owen am yr englyn hyfryd yma:

**GWEDDI'R NADOLIG**

Chwyth awel i dawelu – ein hofnau
'R'ôl cyfnod o gelu;
Yn nes er lles down yn llu
Yn unol i'th foliannu.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Ionawr 22: Y Gweinidog
Ionawr 29: Mr Dafydd Iwan (10)
Chwefror 5: Y Parchedig Mererid Mair (10)
Chwefror 12: Y Gweinidog
Chwefror 19: I'w drefnu
Chwefror 26: Mr Gwilym Williams (10)

# Chwilio am wybodaeth

Yn ystod mis Rhagfyr cysylltodd Mr Brian Iddon gyda mi ar ôl gweld copi o Llais Ogwan. Un o ochrau Abermaw ym Meirionydd ydy Mr Iddon, ond nid ydyw yn siarad Cymraeg. Ei ddiddordeb mawr yw chwareli llechi ac yn enwedig y rhai sydd bellach yn segur, ac mae wedi creu portffolio o luniau monocrom ar y testun, gan hefyd gasglu lluniau a chardiau post.





Yn ddiweddar daeth yn berchen ar ddau baentiad o chwarelwyr wrth eu gwaith yn hollti. Yr artist ydy Tom Hughes, oedd yn ôl yr hyn y mae'n ei ddeall, ar un amser yn gweithio yn y chwarel. Hoffai trwy ddarllenwyr Y Llais petai'n cael mwy o wybodaeth. Mae Mr Iddon yn gobeithio creu arddangosfa o'i waith yn fuan.

Gallwch gysylltu efo fi Mary Jones 42, Erw Las Bethesda LL57 3NN, maryeds@hotmail.co.uk ffôn 07443047642. Diolch.

# Eglwys Crist, Glanogwen

**Eglwys Crist, Glanogwen**
Ar ddechrau blwyddyn newydd, gobeithiwn y bydd yr afiechydon i gyd yn diflannu'n fuan, er mwyn cael dod at ein gilydd mewn addoliad unwaith eto. Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb sydd wedi bod dan annwyd, ffliw a Covid yn ddiweddar, gan ddymuno gwell iechyd i bawb yn y misoedd nesaf.

Mae nifer o'n haelodau yn wael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar; dymunwn wellhad buan iddynt hwythau; cofiwch roi gwybodaeth os gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun yn eu cartref.

**Enillwyr Clwb Cant mis Rhagfyr**
£40: 108 – Joe Hughes
£20: 72 – Mrs Gwenda Bowen
£15: 160 – Sioned E. Huws

Enilwydd y Raffl Nadolig gan Ian Hughes, Rhes Gordon
Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb.

**Apêl**
Diolch i bawb sydd yn dal i gyfrannu at yr Apêl – casglwyd dros £3,500 yn ystod 2022 trwy roddion, y Clwb Cant a'r gweithgareddau codi arian. Daeth £388 trwy GoFundMe – cofiwch am y ffordd hawdd hwn o gyfrannu os oes rhywun yn holi – mynd ar safle we Gofundme – Search – Glanogwen – a dilyn y cyfarwyddiadau.

Gobeithio y bydd mwy o gyfle i drefnu gweithgareddau yn 2023 – mae'n ffordd braf o gymdeithasu – oes gennych chi syniad? Fedrwch chi drefnu rhywbeth? Cofier bod yr eglwys ar gael i bawb yn y gymuned – mi fasai'n druenus gweld ei chau oherwydd diffyg diddordeb. Beth amdani?

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

**Gwasanaethau**
Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi.
Croeso cynnes fel arfer i bawb i'n holl wasanaethau.

**Manylion Cyswllt**
Gellir cysylltu â'r ficer, y Parch. Ddr Gareth Lloyd, ar 07847 125 225 ynglyn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.
Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffon os am gael sgwrs

Blwyddyn Newydd Dda i aelodau, teuluoedd a ffrindiau oll.



**Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen** Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967


# Rhiwlas


**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

**Y Goeden Nadolig**
Diolch i Cyfeillion Rhiwlas am drefnu i osod y goeden Nadolig ar y llain gwyrdd ym Mro Rhiwen – roedd yn hynod hardd a thrawiadol.

**Merched y Wawr**
Mae'r gangen yn cyfarfod ar ail ddydd Mawrth y mis am 1:30 yn y Neuadd. Croeso i aelodau hen a newydd.

**Clwb Rhiwen**
Cafwyd pnawn difyr yn y caffi yn Llanberis. Mae'r Clwb yn cyfarfod yn y neuadd ar drydydd dydd Mercher y mis am 1 o'r gloch. Croeso i aelodau hen a newydd fel ei gilydd.

**Y Neuadd**
Mae'r paneli newydd wedi eu gosod yn yr ystafell a'r sain wedi gwella'n fawr o ganlyniad. Diolch i'r rhai a fu'n gyfrifol am hyn. Mae'r Neuadd wedi cael cyfnod go brysur yn ddiweddar – o ddangos gemau Cwpan y Byd i gyngerdd Nadolig gan blant yr ysgol. Diolch iddynt hwy ac i'w hathrawon. Cafwyd hefyd noson o garolau gydag aelodau Capel y Ffynnon, Bangor. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl ac eitem gerddorol.

**Ymateb i erthygl**
Cefais neges gan Arwel Jones o Langristiolus wedi iddo weld erthygl am y gofeb newydd yn rhifyn Tachwedd Llais Ogwan. Mae wrthi'n ymchwilio i hanes brawd ei nain ar hyn o bryd, sef Trevor Owen, sydd â'i enw ar y gofeb. Roedd Rhiwlas yn agos iawn at galon nain Arwel, er iddi gael ei magu yn Llangristiolus a threulio gweddill ei hoes yno. Roedd yn siarad yn aml am ei brawd yn cofio ffarwelio ag o am y tro olaf cyn iddo fynd i'r rhyfel. Roedd Arwel yn awyddus i gysylltu yn y gobaith fod rhywun â rhywfaint o wybodaeth am Trevor Owen.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Daron, Carreg y Gath a'i chymar ar enedigaeth eu mab, Elis. Nain a Taid wedi dotio!

**Eisteddfod Genedlaethol 2023**
Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen angen codi arian tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn awyddus i godi pwyllgor er mwyn trafod a threfnu ymgyrchoedd codi arian. Mwy o fanylion i ddilyn.

**Gwynedd Digidol**
Mae'r sesiynau Gwynedd Digidol ar fin ailgychwyn. Mwy o fanylion i ddilyn.

Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau at y rhai sydd heb fod yn dda yn ddiweddar, boed hynny adref neu yn yr Ysbyty. Cofion atoch oll – a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

# YSGOL RHIWLAS

**Capel y Ffynnon**
Diolch yn fawr i Gapel y Ffynnon am ddod i'r ysgol i wneud gweithgareddau Nadoligaidd gyda'r plant. Roedd pawb wrth eu boddau gyda'r holl hwyl a chanu – a'r bisgedi blasus, wrth gwrs!

**Plant Mewn Angen**
Llwyddom i godi £58 at yr achos da yma wrth i blant wisgo dillad eu hunain. Mae pob ceiniog yn cyfri - da iawn, blant!

**Sioe Nadolig**
Am drît oedd hi i ni allu cael sioe Nadolig eleni! Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhyfedd gyda'r holl gyfyngiadau felly roedd hi'n hyfryd gallu croesawu cymaint ohonoch i'n sioe unwaith eto. Hoffem ddiolch i bwyllgor y Neuadd Bentref am adael i ni ddefnyddio'r neuadd i ymarfer ac ar y noson fawr; hefyd hoffwn ymestyn diolch i Sara Jones am wirfoddoli i baentio wynebau ein prif gymeriadau.

**Ffarwel i Mrs Hodson**
Dymunwn yn dda i Marie Hodson sydd wedi derbyn swydd newydd gyda Phartneriaeth Ogwen. Bu yn rhan amhrisiadwy o staff yr ysgol ers blynyddoedd bellach a byddwn yn sicr yn gweld ei cholli. Dymuniadau gorau a phob lwc iddi yn y dyfodol a diolch am dy



**Banc Bwyd**
Unwaith eto eleni fe benderfynon ni ofyn am roddion tuag at fanc bwyd yn ein sioe Nadolig yn hytrach na ffi mynediad. Llwyddon ni i gasglu bron i 20 bag o fwyd i'w rhannu gyda Banc Bwyd y Gadeirlan ym Mangor. Hoffem ddiolch i bawb am eu haelioni.



**Cinio Dathlu Santes Dwynwen**
yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda
**Dydd Gwener, 27 Ionawr am 12.00yp**
Tocyn £5 - am 2 gwrs a phaned
Elw tuag at ymgyrch
Hadau Gobaith (Apel Honduras)


British Association Landscape Industries ACCREDITED

# TRAWIADOL A CHYNALIADWY

GWERTHFAWROGWCH NATUR HARDDWCH GYDA THIRLUNIO CALED WELSH SLATE

Crëwyd Llechi Cymreig dros filiynau o flynyddoedd, gan esblygu'n ddeunydd dramatig, hardd ac unigryw a ddefnyddir gan benseiri, dylunwyr a pherchnogion tai.

01248 600656
enquiries@welshslate.com
welshslate.com

LLWYBRAU ▲ WALIAU ▲ COPINAU ▲ CERRIG NODWEDD
MONOLITHAU ▲ CERRIG MÂN ADDURNIADOL



# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

gan Andre Lomozik

RHAN 4

**2 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

**Hugh Rowlands** oedd yn byw yn rhif 2 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1871, gyda'i deulu, Ellen ei wraig a Thomas Lewis y mab. Roedd Ellen yn 46 oed a Thomas yn 21 oed. Roedd morwyn o'r enw Anne Jones yno hefyd ac roedd hi yn 39 oed. Roedd Hugh yn enedigol o Langwyllog, Sir Fôn, ac yn ddilledydd yn ôl y cyfrifiad. Roedd Ellen ei wraig a Thomas y mab ill dau wedi eu geni yng Nghemaes, Sir Fôn.

Mae adroddiad fel a ganlyn yn *Y Goleuad* Ionawr 7, 1871, 'RAGGED SCHOOL PANTDREINIOG --- Bydd yn dda gan ddarllenwyr y Goleuad glywed, mae'n ddiamau gennym, fod y sefydliad daionus hwn, yr ysgol Sabothol yn Mhantdreiniog, wedi bod yn llwyddiannus yn ystod y ddwy flynedd diweddaf. Anrhegwyd plant tlodion yr ysgol uchod â dilladau newyddion – oddeutu haner cant mewn rhifau, gan y foneddiges weithgar a haelfrydig Mrs Rowlands, Ogwen Terrace, Bethesda, yn cael ei chynorthwyo gan Miss Parry, Carneddi Road, a Miss Evans, Penybryn. Y mae y chwiorydd hyn yn ddiarebol am eu gweithgarwch gyda y sefydliad hwy. Yr ydym yn deall iddynt eu dilladu y flwyddyn o'r blaen. Y maent yn parhau gyda'r ysgol wnïo unwaith bob wythnos ers dros flwyddyn. Y mae yr ysgol Sabothol wedi cynyddu yn ddirfawr yn Pantdreiniog.

Y mae ynddi bedwar ugain bob Sabath; hefyd naw o athrawon a naw o athrawesau. Gan fod adroddiad wedi ymddangos yn eich colofnau ychydig fisoedd yn ôl am yr ysgol, a sefyllfa y lle, a'r trigolion, pan sefydlwyd yr ysgol yno ar y cyntaf, gadawn y cyfan gyda dweud fod yn Pantdreiniog lawer o rieni a phlant oedd pryd hwnnw yn hollol anllythrennog, erbyn hyn yn alluog i ddarllen Gair Duw.

Y mae y trigolion wedi gwella llawer iawn mewn moesau. Parha'r Band of Hope yn llewyrchus, ac mae'r plant yn brysur ddysgu y Tonic Solffa. Dyna y ffordd y daw'r byd i'w le. Y mae yn y fan hon ymdrechu anghyffredin wedi bod; ni welsom yn ein hoes fwy o ymdrech gyda'r ysgol Sabothol nag sydd ymysg cyfeillion Brynteg. Llwyddiant mawr a'u dilyno rhaglaw. Cymro'

Cawn gyfeiriad arall at Mrs Rowlands, yn *Y Goleuad* Gorffennaf 22, 1871, lle mae'r gohebydd yn dweud ei bod yn ymadael â chapel Brynteg, Pantdreiniog, ond nid yw'n rhoi mwy o fanylion ond yn dweud y byddai'n golled fawr i'r ysgol Sabothol.

Erbyn cyfrifiad 1881 roedd Hugh Rowlands a'i deulu wedi symud i Fangor i fyw, ac yn cadw siop yno, sef Bradford House, High Street.

**Ellis Williams**, a anwyd yn Llanllechid, a oedd yn cael ei enwi fel pen teulu yn 2 Ogwen Terrace, 1881. Roedd un o'r enw William Roberts yno hefyd, ac yn cael ei nodi fel partner yn y cyfrifiad, ynghyd â morwyn o'r enw Elizabeth Jones. Roedd William Roberts yn enedigol o Lanystumdwy, ac Elizabeth yn dod o Gaernarfon. Cadw siop ddillad oedd Ellis a William, ond mae cofnod o farwolaeth William yn 1889 yn yr *Herald*, lle mae W.J. Parry fel ysgutor ewyllys William Roberts yn cael ei erlyn gan Mr Hughes a Mr Edwards am y swm o £58.

Roedd Ellis Williams yn dal i fyw yn 2 Ogwen Terrace yng nghyfrifiad 1891, ond mae'n cael ei nodi fel gŵr gweddw erbyn hynny ac yn byw yno ar ei ben ei hun.

**John R. Jones,** o Llanbedr, a'i wraig Emma a anwyd yn Llangystenyn, oedd yn byw yn 2 Ogwen Terrace yng nghyfrifiad 1901, gyda'u pedwar plentyn. Roedd John yn 46, Emma yn 48, a John y mab hynaf yn 25 oed, Evan Salisbury yn 20, Lizzie Ellen yn 18, ac Robert Llewelyn yn 8 oed.

Yng nghyfrifiad 1881 roedd y teulu yn byw yng Nghefn Cwlyn, Braichmelyn. Ond fel y soniwyd, erbyn cyfrifiad 1901 roeddynt yn byw yn 2 Ogwen Terrace. Crydd oedd John ac roedd dau o'i feibion, sef John ac Evan, yn cydweithio ag ef. Roedd Lizzie y ferch hefyd yn cael ei nodi fel un yn cynorthwyo yn y siop, ond mae un hysbyseb yn ymddangos yn *Y Genedl Gymreig*, dyddiedig 2, Tachwedd 1892. 'AT GRYDDION, - YN EISIAU, Dau Grydd wedi ymarfer a gwaith cryf ac ysgafn. Telir y prisiau uchaf. Gwaith parhaus. Dynion sobr yn unig all ymgynnig. – Ymofynnir yn ddioed â J. R. Jones, Braichmelyn, a 2 Ogwen Terrace, Bethesda'. Felly mae'n bosib fod gan John ddwy siop, Braichmelyn a Ogwen Terrace.

Yn y *Caernarvon & Denbigh Herald* Medi 25 1903, t8, cawn yr adroddiad yma o briodas.

*JONES – OWEN September 17 at Carmel (I) Chapel, Rachub, Llanllechid, by the Rev. T. Dennis Jones, in the presence of Mr Isaac Davies, deputy-registrar, Mr Evan Salisbury Jones, 2, Ogwen Terrace, Bethesda, to Miss Annie Owens, Tandderwen, Rachub, Llanllechid.*

Roedd 2 Ogwen Terrace yn wag neu fod y perchnogion ddim gartref ar noson y cyfrifiad 1911. Roedd Emma Jones yn weddw ac wedi symud o'r hen cartref i fyw yn rhif 66 Stryd Fawr, Bethesda, ac yn cadw *'chip patato and ice cream shop*'. Roedd Emma Jane, y ferch, a Robert Llewelyn, y mab ieuengaf, yn byw gyda hi. Emma yn cynorthwyo yn y busnes, a Robert yn grydd a postmon, gyda John, y mab hynaf, wedi priodi ac yn byw yn Llanberis gyda'i wraig Ellen Jane, ac Irvon George eu mab bach 3 oed.

Mae Evan Salisbury Jones, ail fab John ac Emma, yn byw yn rhif 66 Stryd Fawr, Bethesda hefyd, ond yn cael ei ddisgrifio fel pen teulu, ac yn gweithio fel crydd. Roedd wedi priodi gydag Annie, merch o Lerpwl, a thri o blant ganddynt, sef Isabella Sailsbury 3 oed, Annie Moncrieff 2 oed, a Glenys yn 9 mis oed.

(i'w barhau)


C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Genedigaeth**
Ar Ragfyr 12 ganed Gerallt Jac i Gethin ac Angharad yn Braich Melyn. Llongyfarchiadau mawr ac hefyd i Taid a Nain Tregarth, sef Angharad a Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw. Mae Gerallt Jac yn frawd bach i Loti a Shannon. Pawb yn edrych ymlaen i weld y bychan.

Ganed merch fach yn Las Vegas ar Dachwedd 29, i Elizabeth a Chris, a'i henw ydi Hywela Olwen ac mae'n chwaer fach i Haydn Ogwen. Daw tad Elizabeth o Dregarth, sef Gwyn Davies, Erw Faen gynt, mab Haydn ac Olga Davies, Hen Berllan, Dob. Llongyfarchiadau i chi fel teulu ar achlysur hynod o hapus.

**Penblwydd arbennig**
Penblwydd hapus i Hannah Williams, Ffordd Tanrhiw, a ddathlodd ei phenblwydd yn 18 oed yn Mis Tachwedd.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Ar Ragfyr 5 bu aelodau o'r gangen yn gwledda yn eu cinio Dolig yn y Teras, Coleg y Brifysgol, Bangor. Roedd amryw yn methu bod yn bresennol oherwydd y ffliw a'r cofid. Cawsom bryd o fwyd ardderchog a diolchodd ein llywydd, sef Carol Jones i staff y gegin am y wledd.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesa Nos Lun, Chwefror 6, yn Festri Capel Shiloh Newydd am 7.30, ac mae hen edrych ymlaen pan roddwn groeso cynnes i un o gyn drigolion y pentref sef Ann Catrin, Bryn Cul gynt. Dylunydd a gof ydi Ann Catrin ac mae ei gwaith metal, arian, aur etc yn enwog drwy'r wlad ac ymhellach ar draws y byd. Mae yn creu darnau o emau o bob math ynghyd a canhwyllbrennau, offer addurniadol ar gyfer y cartref a phethau eraill. Mi fydd hon yn noson arbennig iawn i groesawu Ann yn ôl i Dregarth a chofiwn yn annwyl am ei mham, Val Evans, oedd yn aelod ffyddlon o'r gangen am flynyddoedd.

Cofiwch ddod â llond pwrs o arian i brynu peth o'i gwaith! Croeso cynnes i'r aelodau, cyn-aelodau ac aelodau newydd.

**Capel Shiloh Newydd**
Dyma'r gwasanaethau yn Shiloh Newydd am yr wythnosau nesaf. Pob oedfa yn cychwyn am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

Ionawr 25 – Hugh Pritchard, Llangefni
Ionawr 29 – Geraint Roberts, Llandegfan
Chwefror 5 – Trefniant Lleol
Chwefror 12 – Ellie Jones, Coed y Parc
Chwefror 19 – Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Chwefror 26 – R.O.Jones, Gaerwen

**Profedigaeth**
Daeth y newyddion trist ar Ragfyr 26 am farwolaeth Katie May Williams , Drws y Llan, Campbell Road, Caernarfon, yn 92 oed, priod ein cyn-weinidog a chyfaill mawr i Shiloh Newydd, sef y Parchedig Gwynfor Williams. Cydymdeimlwn gyda Gwynfor a'i ferched Eurgain a Delyth a'r holl deulu yn eu tristwch. Bu ei hangladd yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaen, ar Ionawr 12.

Daeth profedigaeth i ran un o aelodau'r capel sef Olwen Jones, Coed Hywel, Llandegai, pan fu farw ei mam yng nghyfraith, Rhianwen Jones. Pob cydymdeimlad gyda'i phlant, Tudor, Tegwen, Eleri a Meinir a'r holl deulu. Bu ei hangladd yn Shiloh Newydd ar Ionawr 16.

**Drws Agored**
Cofiwch fod Drws Agored bob bore Gwener, rhwng 10 a 12 o'r gloch ar gyfer paned, cwmni a chynhesrwydd. Braf iawn ydi cael sgwrs a chwmni diddan a digon o hwyl.

Cawsom wledd fach Nadoligaidd ar Ragfyr 30 pan ddaeth pawb a phlatiad amrywiol o fwydydd gyda nhw, gan fwynhau cinio bach yng nghwmni ein gilydd.

Braf oedd cael cwmni ein gweinidog newydd Y Parchedig Ddoctor Ian Lloyd a'i briod Diane i'n plith ar fore Gwener.

**Croeso adra**
Croeso adra i Margaret Pritchard – Margaret Siop i bobl Tregarth – ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty ac mewn cartref gofal. Gan gobeithio eich bod wedi cael penblwydd hapus iawn ym mis Rhagfyr, Margaret!

**Blwyddyn Newydd Dda i chi**



SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 - 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Dilynwch Llais Ogwan ar
www.llaisogwan.com

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
• PROFION M.O.T. •
GWASANAETH • ATGYWEIRIO
•TEIARS A BATRIS•
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

# CHWILAIR



## Busnesau lleol tua 50 mlynedd yn ôl

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | E | G | A | R | A | G | S | A | L | G | U | O | D | V | S | H | L | E | I |
| M | R | E | G | E | N | T | H | O | U | S | E | G | V | H | M | D | E | W | H |
| U | E | G | A | R | A | G | D | D | Y | F | A | D | D | L | O | D | T | S | Z |
| M | X | V | A | D | D | N | A | P | A | U | Q | U | S | O | F | R | O | H | P |
| O | Y | Q | Z | G | R | H | C | U | M | W | N | O | Y | R | I | A | H | E | S |
| G | Z | V | I | C | T | O | R | I | A | C | A | F | E | U | T | F | E | F | D |
| W | X | U | N | P | W | R | H | C | Q | H | W | E | H | O | Y | E | C | F | E |
| E | E | G | E | A | O | M | H | E | P | T | T | C | B | B | C | F | N | I | U |
| N | U | J | P | L | L | T | M | I | V | V | D | C | B | B | F | A | A | E | R |
| P | F | O | G | J | V | F | I | I | R | R | X | I | M | H | T | C | R | L | T |
| H | O | S | K | O | P | W | E | R | C | M | K | C | B | O | R | D | E | D | C |
| A | X | V | R | Y | H | S | T | R | M | R | E | F | Y | J | D | O | P | S | Z |
| R | P | U | R | P | L | E | M | O | T | O | R | S | H | B | C | O | M | T | W |
| M | O | S | C | R | A | I | X | N | I | L | X | J | J | M | B | W | E | O | W |
| A | Y | R | E | K | A | B | A | I | N | A | T | T | I | R | B | S | T | R | T |
| C | E | X | M | D | X | K | F | U | P | C | Q | Y | O | I | L | G | F | E | E |
| Y | R | S | M | R | A | S | A | L | G | U | O | D | Z | Q | R | N | O | S | C |
| T | D | G | W | S | L | Z | E | B | E | A | J | K | J | C | L | I | N | L | R |
| V | O | G | J | P | W | P | G | S | O | W | J | J | Q | U | L | K | F | S | V |

Yn y Chwilair mis yma mae ENW DEUDDEG BUSNES LLEOL a oedd mewn bodolaeth tua 50 o flynyddoedd yn ôl i'w darganfod. (Mae un ohonynt yn dal mewn bodolaeth). Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. Mae'r enwau wedi eu dangos fel ag yr oeddynt yn cael eu hysbysebu yn y cyfnod, felly enwau Saesneg ydi'r mwyafrif. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).
Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 27 Ionawr 2023. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Efallai bod testun mis Rhagfyr wedi bod braidd yn anodd, neu fod y trafferthion gyda'r post wedi cael effaith ar yr atebion a dderbyniais, oherwydd dim ond chwech ateb gefais, ac o'r chwech yna dim ond tri lwyddodd i ddarganfod yr holl atebion. Gobeithio bydd Chwilair Ionawr yn haws.

**Dyma atebion Chwilair Rhagfyr:** Athraw i Blentyn; Blodau Cerdd; Cenadwr; Cennad Hedd; Darlynydd; Hwyl; Undebwr Cymreig; Y Bugail, (Bethesda); Y Cerddor; Y Gweithiwr; Yr Adfywiadur; Yr Ardd, (Bethesda).

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Gwen Davies, Tanysgafell Isaf; Rosemary Williams, Tanrhiw, Tregarth; Elizabeth Buckley, Maes Ogwen, Tregarth.

**Enillydd Hydref oedd:** Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda.

# Torgochiaid – gweddillion prin o Oes yr Iâ



Pysgodyn hynod ydi'r torgoch (*Salvelinus alpinus*; *arctic char*). Fel rhywogaeth, mae o'n perthyn i'r eog a'r brithyll, ond mae o'n bysgodyn eithriadol o brin. Yng Nghymru, dim ond yma yn y gogledd y ceir y torgochiaid, a hynny mewn llynnoedd dyfnion yn unig.

Yn ein rhan ni o ardal y Carneddau, mae Ffynnon Llugwy a Dulyn yn gynefin iddyn nhw ers eu trosglwyddo yno o Lyn Peris adeg datblygu pwerdy trydan-dŵr Dinorwig. Fe'u ceir hefyd yn Llyn Padarn, Cwellyn, Llyn Cowlyd, Llyn Crafnant yn ogystal â Llynnau Diwaunedd ar gwr Moel Siabod, a Bodlyn ger y Bermo.

Anaml iawn y gwelir y torgoch yn agos at wyneb y dŵr gan ei fod yn bysgodyn sydd angen byw mewn dŵr oer iawn, ac felly dim ond y llynnoedd dyfnaf sy'n gynefin addas iddo. Mae'r oerni'n allweddol iddo gan ei fod yn perthyn yn wreiddiol i gyfnod Oes yr Iâ, a bydd naturiaethwyr yn cyfeirio ato fel rhywogaeth arctig-alpaidd. Tybir mai pysgodyn mudol oedd y torgoch yn wreiddiol, a bod y rhywogaeth wedi ei chloi mewn llynnoedd ar ddiwedd y cyfnod rhewlifol.

Yr unig adeg y daw'r torgochiaid i'r dŵr bas wrth lannau'r llynnoedd ydi adeg claddu (bwrw grawn, sef dodwy'r wyau) ym mis Tachwedd. Ers talwm, byddai pysgotwyr lleol yn manteisio ar hyn ac yn eu rhwydo wrth y glannau yn ystod Tachwedd a Rhagfyr. Yr arferiad yn llynnoedd Llanberis yn yr hen amser, ar ôl eu dal efo genwair, fyddai eu piclo cyn eu bwyta.

Cafodd y torgoch ei enw oherwydd bod bol y gwryw yn goch adeg cymharu. Gair arall am ran uchaf y bol ydi 'tor' ('torllwyth o berchyll' ddywedir am nifer o foch bach, sy'n cyfeirio at y rhan o gorff yr hwch ble mae'r tethau.) O ran maint dydi'r torgoch ddim yn fawr – rhwng 25 a 30cm mewn llawn dwf ac yn pwyso ychydig yn llai na hanner pwys.

Yn 2017, oherwydd bod eu nifer yn gostwng, rhoddodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru 14,000 o dorgochiaid ifanc yn Llyn Padarn. Roedd wyau torgochiaid wedi eu cymryd o afon Bala rhwng Llyn Padarn a Llyn Peris yn 2016 a'u magu yn y ddeorfa bysgod yn Aberhonddu hyd nes oedden nhw'n 11 mis oed. Rhoddwyd nifer hefyd yn Llyn Crafnant. Gobeithio'n fawr y bydd y pysgod hynod hyn yn parhau ac yn ffynnu yn y llynnoedd hyn a'r llynnoedd eraill.


## Wyddech chi ...?

- fod wyth gwahanol fath o ystlum wedi eu cofnodi yn Eryri dros y blynyddoedd
- fod daearegwyr o'r farn y bydd Llyn Ogwen yn cael ei rannu'n ddwy ran ymhen amser hirfaith oherwydd bydd y llaid a'r gro sy'n cael ei gludo gan afon Bochlwyd yn ffurfio cefn o waddod ar draws y llyn.
- fod y gog yn manteisio ar sawl math o aderyn wrth ddodwy ei hwy yn ei nyth. Bydd llwyd y berth, pibydd y waun (corhedydd y waun), robin goch, telor yr hesg a sigl-di-gwt yn cael eu twyllo i fagu cyw cog.




Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

# CROESAIR




**AR DRAWS**

6 Anwadal iawn yw'r pwer o gyfandir (5)
7 Lot fawr barddonol (5)
9 Yr arwr o'i arddwrn yn rhoi ei amser cywir i ni (6)
10 Oni yn ei blicio'n ofalus cyn dechrau newid (6)
11 Dadmer (8)
13 Môn neu Manaw (4)
14 Anifeiliaid y fferm (4)
16 I bwy y canodd Dafydd Iwan ar y cae peldroed y llynedd (2,3,3)
18 Raseli i'r ifainc cyhyrog ddechrau siafio (6)
20 Term llafar negyddol (3,3)
21 O blith Americanwyr mae'r arlywydd yma'n arbennig meddai'r blaenoriaid (5)
22 Chwaraewr wrth gefn (5)

**I LAWR**

1 Gall hwn droi o fod yn hwyl i fod yn brofiad annymunol - ymadrodd (6)
2 Dydd Calan (6,1,6)
3 Un fel 18 Ar Draws (4)
4 "Ar fore Dydd Nadolig", y gân draddodiadol Gymreig (5,1,7)
5 Rhydyclafdy ! Ond a oes un yno ? (6)
8 Cariadon yn gwneud llwon i'w gilydd ar ddiwrnod arbennig hapus (6)
12 Madfall trofannol mawr (6)
15 Ŵyn Cymreig o'r mart ar gychwyn taith dros yr Iwerydd (6)
17 Piano neu ffliwt efallai (6)
19 Safle'r Wyddfa o holl gopaon Cymru (4)

**ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2022**

**AR DRAWS** 6 Stormus, 7 Gosod, 8 Anfon, 10 Ychwaneg, 12 Byseddu, 13 Rhostio, 15 Ongl Lem 17 Y Simdde, 20 Isafswm, 22 Y Grat, 24 Ochain, 25 Siocled

**I LAWR** 1 Ston, 2 Amynedd, 3 Estyn, 4 Ffolais/Hoffais, 5 Bore, 8 Arbrofi, 9 Fisol, 11 Gloddest, 14 Tymor, 16 Lefain, 18 Swynol, 19 Ymysg, 21 Sach A, 23 Awel

Y gwall amlycaf y tro yma oedd 7 Ar Draws am y dant a'r dannedd. 'Gosod' oedd yr ateb cywir, Fel gosod cerdd dant a gwisgo dannedd gosod. Cafwyd 'dethol' gan rai. Y gwall arall oedd 'wenais' yn hytrach na 'ffolais' (4 I Lawr).

Gan y canlynol y cafwyd atebiob cywir. Da iawn chi : Gaynor Elis-Williams, Bethesda;
Meilyr Wyn, Gerlan; Dulcie Roberts, Gareth Oliver, Tregarth; Medi Michael, Bangor; Gill King, Mynydd Llandygai; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Iona Williams, Llanddulas; M. A. Jones, Llanllechid; Dilys Parry, Rhiwlas

Diolch am eich cyfarchion caredig, a blwyddyn newydd lewyrchus i chwithau oll.

Yr un sy'n cipio'r wobr y tro hwn yw ymgais M. A. Jones, Awelon, Yr Ynys, Llanllechid, Bangor, Gwynedd LL57 3ED. Llongyfarchiadau calonnog i chi.

Atebion erbyn 3 Chwefror 2023 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Ionawr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD


**JOHN ROBERTS**



**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**

**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

post@llaisogwan.com

**DAFYDD CADWALADR**

**Cynhyrchion Coedlannol**

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

**01248 605207**